

# REVALIDATION

## Sut i ail-ddilysu gyda'r NMC

Gofynion ar gyfer adnewyddu eich cofrestriad

### TUDALEN GYNNWYS

BETH MAE'R DDOGFEN HON YN WNEUD? .....	3
BETH YW AIL-DDILYSG? .....	6
RHESTR WIRIO O OFYNIION A THYSTIOLAETH GEFNOGOL.....	8
Y BROSES AIL-DDILYSU .....	10
SUT I FYND ATI I AIL-DDILYSU .....	11
GWYBODAETH NA ELLIR EI HADNABO .....	14
ORIAU GWAITH .....	17
DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHUAS .....	22
ADBORTH YN YMWNEUD Â GWAITH .....	24
ADRODDIAD MYFYRIOL YSGRIFENEDIG .....	26
TRAFODAETHAU MYFYRIOL .....	28
IECHYD A CHYMERIAD .....	30
TREFNIANT IAWNDAL PROFFESIYNOL.....	32
CADARNHAD .....	34
Y BROSES GWNEUD CAIS .....	37
GWIRIO EICH CAIS .....	40
PROSES AU AIL-DDILYSU A FFITRWYDD I WEITHIO NMC .....	42
CANSLO EICH COFRESTRIAD .....	43
TAFLEN ARWEINIAD 3: ENGHREIFFTIAU O WEITHGAREDDAU DPP .....	45
FFURFLENNI A THEMPLEDI .....	46

Cyhoeddwyd y ddogfen ddiweddaedig hon ym mis Ebrill 2017

23 Portland Place, London W1B 1PZ

T +44 20 7333 9333

[www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk)

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland  
Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362)

**NMC** Nursing &  
Midwifery  
Council

# BETH MAE'R DDOGFEN

## HON YN EI WNEUD?

**Mae'r ddogfen hon ar gyfer nyrsys a bydwagedd sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Mae'n nodi sut i adnewyddu eich cofrestriad blynedd gyda'r NMC drwy ail-ddilysu bob tair blynedd.**

Darperir y gofynion ar gyfer ail-ddilysu naill ai yn y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y Gorchymyn)<sup>1</sup> a Rheolau Apelio Cofrestru, Cofrestru ac Addysg (y Rheolau)<sup>2</sup>, neu yn y safonau a osodir gan yr NMC ar gyfer ail-ddilysu ac ail-dderbyn.<sup>3</sup>

Mae'r gofynion hyn yn effeithiol o Ebrill 2016 ac yn cymryd lle'r gofynion adnewyddu a nodwyd yn y llawlyfr Paratoi (Addysg Cyn Cofrestru a Safonau Arfer).<sup>4</sup>

## Am yr NMC

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn bodoli i warchod y cyhoedd. Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau mai dim ond y sawl sydd yn bodloni ein gofynion sydd yn cael arfer fel nyrs neu fydwraig gofrestredig yn y DU. Rydym yn cymryd camau gweithredu os fydd pryderon yn cael eu codi ynglŷn â p'un ai a yw nyrs neu fydwraig gofrestredig yn addas i arfer.

## Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg i chi o'r broses ail-ddilysu y bydd rhaid i chi ei chyflawni bob tair blynedd er mwyn adnewyddu eich cofrestriad. Mae'n nodi ein hawgrymiadau ar sut i ymdrin â'r broses hon a chasglu'r wybodaeth ofynnol.

Mae'n cynnwys rhestr wirio o'r gofynion ail-ddilysu a thystiolaeth gefnogol ar gyfer pob un o'r gofynion.

Ar dudalennau 14-30 rydym yn cyflwyno pob gofyniad ac yna'n darparu gwybodaeth bellach er mwyn eich helpu i ddeall a bodloni'r gofyniad. Mae'r wybodaeth hon yn nodi:

- pwrpas y gofyniad;
- sut y gallwch gydymffurfio â'r gofyniad;
- y dull yr ydym ni'n ei awgrymu o gasglu a chofnodi'r wybodaeth ofynnol a
- sut i arddangos i ni eich bod wedi bodloni'r gofynion yn eich cais ar-lein.

Dylid darllen y ddogfen hon ynghyd â'r Cod<sup>5</sup> a chanllawiau eraill ar ein gwefan. Rydym hefyd wedi cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau y gallwch eu cael yn ddefnyddiol wrth baratoi at ail-ddilysu, gan gynnwys templedi cyflawni ac astudiaethau achos. Rydym wedi darparu gwybodaeth ar gyfer cadarnhawyr, a dylech sicrhau fod eich cadarnhawyr wedi ei ddarllen, yn ogystal â gwybodaeth ar gyfer cyflogwyr. Awgrymir fod eich bod yn annog eich cyflogwr (os y'n berthnasol) i ddarllen hwn.

Noder y bydd rhaid i chi dalu eich ffi cofretru blynyddol bob blwyddyn er mwyn cadw eich cofrestriad gyda'r NMC.

# Sut y bydd yr NMC yn defnyddio eich gwybodaeth

Fel rhan o'r broses ail-ddilysu mae gofyn i chi gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi eich hun i'r NMC. Bydd yn prosesu eich data personol yn unig, fel y caniateir gan Ddeddf Diogelu Data 1998 ('DPA').



Mae manylion am ein polisi gwarchod dara wedi'u cynnwys yn ein hysbysiad prei-fatrwydd ar: [www.nmc.org.uk/contact-us/foi-and-dpa/data-protection](http://www.nmc.org.uk/contact-us/foi-and-dpa/data-protection)

Byddwn yn defnyddio eich data personol at ddibenion gweinyddu ac asesu eich cais ail-ddilysu ac unrhyw wiriad dilynol o'r cais hwnnw. Hefyd, efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd drwy'r broses ail-ddilysu ar gyfer ymchwil ac at ddibenion cynnal a chadw a gwella ein systemau a phrosesau mewnol.

Rydym yn disgwyl i chi lynu at yr amodau o ran sut i fodloni'r gofynion a nodwyd yn y canllawiau hyn ac yn y wybodaeth i gadarnhawyr a chyflogwyr (os yn briodol). Mae enghreifftiau o'r amodau hyn yn cynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i) osgoi gwrthdaro buddiannau a chael eich trafodaeth fyfyrionol gyda chofrestrydd NMC. Rydym hefyd yn disgwyl i chi gyflwyno gwybodaeth gywir yn eich cais ar-lein. Os oes sail i gredu nad ydych chi wedi bodloni'r amodau hyn, a/neu eich bod wedi gwneud datganiad ffug fel rhan o'ch cais ail-ddilysu, byddwn yn ymchwilio a gallai eich cofrestrriad fod mewn perygl. Gellir defnyddio gwybodaeth a gafwyd gennych i ymchwilio i unrhyw achosion o dorri'r Cod ac at ddibenion unrhyw weithgareddau addasrwydd i arfer dilynol.

## Sut i gysylltu â'r NMC

Am ragor o wybodaeth edrychwch ar yr adran ar ail-ddilysu ar wefan NMC ar: [revalidation.nmc.org.uk](http://revalidation.nmc.org.uk). Os na fyddwch yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol a'ch bod angen help o hyd gallwch ein e-bostio ar: [revalidation.escalation@nmc-uk.org](mailto:revalidation.escalation@nmc-uk.org).

Pe byddwch yn dymuno gwneud cwyn am safon y gwasanaeth dylech gyfeirio at y tudalennau 'Amdanom ni' ar ein gwefan ar [www.nmc.org.uk/contact-us/complaints-about-us](http://www.nmc.org.uk/contact-us/complaints-about-us).

## BETH YW AIL-DDILYSU?

### Ail-ddilysu

yw'r broses sy'n eich caniatáu i barhau â'ch cofrestrriad gyda'r NMC; mae'n arddangos eich gallu parhaus i weithio'n ddiogel ac effeithiol, ac mae'n broses barhaus y byddwch yn cymryd rhan ynddi trwy gydol eich gyrfa.

**Cyfrifoldeb y nyrsys a'r bydwagedd eu hunain yw ail-ddilysu. Chi yw perchennog eich proses ail-ddilysu eich hun.**

# Nid yw ail-ddilysu yn

asesiad o ffitrwydd nyrs neu fydwraig i weithio

ffordd newydd i godi pryderon am ffitrwydd i weithio (bydd unrhyw bryder am nyrs neu fydwraig yn parhau i gael ei godi trwy'r broses ffitrwydd i weithio bresennol) neu

asesiad yn erbyn gofynion eich cyflogwr presennol/blaenorol.

## Pam ein bod wedi cyflwyno ail-ddilysu

i godi ymwybyddiaeth o'r Cod a'r safonau proffesiynol disgwylidig gan nyrsys a bydwragedd i roi cyfle i chi adlewyrchu ar rôl y Cod yn eich galwedigaeth fel nyrs neu fydwraig ac i arddangos eich bod yn 'byw' y safonau hyn

i'ch annog i gadw'n gyfoesl â'ch arfer proffesiynol drwy ddatblygu sgiliau newydd a deall y newid yn anghenion y cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill

i annog diwylliant sy'n rhannu, adlewyrchu a gwella

i'ch annog i ymgysylltu â rhwydweithiau proffesiynol a thrafodaethau am eich arfer, ac

i atgyfnerthu hyder y cyhoedd ym mhroffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

## Ail-ddilysu a'r Cod

Un o brif gryfderau'r ail-ddilysu yw ei fod yn atgyfnerthu'r Cod drwy ofyn i nyrsys a bydwragedd ei ddefnyddio fel pwynt cyfeirio ar gyfer yr holl ofynion, gan gynnwys eu disgrifiadau adlewyrchol ysgrifenedig a thrafodaeth adlewyrchol.

Dylai hyn bwysleisio rôl ganolog y Cod yn y proffesiwn nyrsio a bydwreigiaeth ac annog nyrsys a bydwragedd i ystyried sut mae'n cymhwyso yn eu harfer dyddiol.


Mae'n ofynnol yn ôl y Cod (paragraff 22) eich bod yn cyflawni'r holl ofynion cofrestru. I wneud hyn mae'n rhaid i chi:

fodloni unrhyw geisiadau rhesymol fel y gallwn gael trosolwg o'r broses gofrestru (22.1);

gadw at ein horiau gweithio rhagnodedig a chynnal gweithgareddau datblygu proffesiynol parhaus (22.2), a

chadw eich gwybodaeth a'ch sgiliau'n gyfoes, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau proffesiynol a dysgu priodol a rheolaidd sy'n anelu at ddatblygu eich cymhwysedd ac i wella eich perfformiad (22.3).

# Ar y cyfan, dylai ail-ddilysu arwain at arfer gwell ac felly mae gwarchod y cyhoedd yn elwa.



# RHESTR WIRIO O OFYNION A

# THYSTIOLAETH GEFNOGOL

Dyma'r holl ofynion y mae'n rhaid i chi eu bodloni er mwyn cwblhau eich ail-ddilysiad ac adnewyddu eich cofrestriad bob tair blynedd gyda'r NMC.

Gofynion	Tystiolaeth gefnogol
450 o oriau gweithio neu 900 awr os ydych yn ail-ddilysu fel nyrs a bydwraig	<p>Cadw cofnod o'r nifer o oriau gweithio yr ydych wedi'u cyflawni, gan gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• dyddiadau'r gwaith;</li><li>• y nifer o oriau a gyflawnwyd;</li><li>• enw, cyfeiriad a chod post y sefydliad;</li><li>• cwmpas yr arfer (gweler y blwch syniadau ar dudalen 18);</li><li>• lleoliad gwaith (gweler y blwch syniadau ar dudalen 18);</li><li>• disgrifiad o'r gwaith a wnaed; a</li><li>• thystiolaeth o'r oriau gwaith hynny (fel taflenni amser, proffiliau'r swydd neu swydd ddisgrifiadau).</li></ul>
35 awr o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus	<p>Cadw cofnodion cywir y gellir eu gwirio o'ch gweithgareddau DPP, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• y dull DPP (enghreifftiau o'r 'dull DPP' yw hunan-ddysgu, dysgu ar-lein, cwrs);</li><li>• disgrifiad byr o'r testun a sut mae'n berthnasol i'ch galwedigaeth;</li><li>• dyddiadau pan gynhaliwyd y gweithgaredd DPP;</li><li>• y nifer o oriau ac oriau cymryd rhan;</li><li>• nodi'r rhan o'r Cod sy'n fwyaf perthnasol i'r DPP; a</li><li>• thystiolaeth o'r gweithgaredd DPP (am enghreifftiau edrychwch ar ein taflen arweiniad ar <a href="https://www.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information">revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information</a>).</li></ul>
Pum darn o adborth yn ymwneud â gwaith	<p>Nodiadau ar gynnwys yr adborth a sut y gwnaethoch ei ddefnyddio i wella eich arfer. Bydd hyn yn ddefnyddiol i chi ei ddefnyddio pan rydych yn paratoi eich adroddiadau adlewyrchol. Gwnewch yn siŵr nad yw eich disgrifiadau'n cynnwys unrhyw ddata personol (gweler yr adran ar wybodaeth na ellir ei adnabod ar dudalennau 14-16).</p>

<b>Gofynion</b>	<b>Tystiolaeth gefnogol</b>
<b>Pum adroddiad adlewyrchol ysgrifenedig</b>	Pum adroddiad adlewyrchol yn egluro'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu o'r gweithgaredd DPP a/neu adborth a/neu ddigwyddiad neu brofiad o'ch arfer, sut y gwnaethoch newid neu wella eich gwaith o ganlyniad, a sut mae hyn yn berthnasol i'r Cod. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio ffurflen yr NMC ar dudalen 38 a sicrhau nad yw eich adroddiadau'n cynnwys unrhyw ddata personol (gweler yr adran ar wybodaeth na ellir ei adnabod).
<b>Trafodaeth adlewyrchol</b>	Ffurflen trafodaeth adlewyrchol sy'n cynnwys enw, Pin NMC y nyrs neu'r fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC y cawsoch y drafodaeth â hwy, yn ogystal â dyddiad y drafodaeth. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen NMC ar dudalen 39 ac mae'n rhaid i hwn fod yn gopi papur yn unig. Gwnewch yn siŵr nad yw eich adroddiadau'n cynnwys unrhyw ddata personol (gweler yr adran ar wybodaeth na ellir ei adnabod).
<b>Iechyd a chymeriad</b>	Byddwch yn gwneud y datganiadau hyn fel rhan o'ch cais ail-ddilysu ar-lein.
<b>Trefniad digolledu proffesiynol</b>	<p>Tystiolaeth i ddangos fod gennych drefniad digolledu priodol ar waith.</p> <p>P'un ai a yw eich trefniad digolledu drwy eich cyflogwr, aelodaeth o gorff proffesiynol neu drwy drefniad yswiriant preifat.</p> <p>Os yw eich trefniad digolledu yn cael ei ddarparu drwy aelodaeth o gorff proffesiynol neu drefniad yswiriant preifat, bydd angen i chi gofnodi enw'r corff proffesiynol neu'r darparwr.</p>
<b>Cadarnhad</b>	Ffurflen gadarnhad wedi'i llenwi gan eich cadarnhâwr. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio ffurflen yr NMC ar dudalennau 40-42.

# Y BROSES AIL-DDILYSU

**Dros y tair blynedd ers i chi ail-ddilysu'r tro diwethaf/i chi ymuno â'r gofrestr**

Mae angen i chi fodloni ystod o ofynion ail-ddilysu sydd wedi'u dylunio i ddangos eich bod yn cadw'n gyfoes ac yn cynnal gwaith diogel ac effeithiol.



Am ragor o wybodaeth gweler tudalennau 14-30 o'r gofynion.

**Yn y 12 mis cyn eich dyddiad ail-ddilysu**

Unwaith y byddwch wedi bodloni'r gofynion, bydd angen i chi drafod eich ail-ddilysu gyda chadarnhäwr. Fel rhan o'r drafodaeth hon, byddwch yn arddangos eich bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion ail-ddilysu, oni bai am y trefniad digolledu Proffesiynol ac iechyd a chymeriad.



Gweler tudalennau 28-30: 'Cadarnhad'.

**0 leiaf 60 diwrnod cyn eich dyddiad cais ail-ddilysu**

Bob tair blynedd bydd gofyn i chi wneud cais am ail-ddilysu gan ddefnyddio NMC Ar-lein. Byddwn yn eich hysbysu o leiaf 60 diwrnod cyn y bydd angen i chi wneud cais, naill ai ar e-bost os ydych wedi creu cyfrif NMC Ar-lein, neu drwy lythyr i'ch cyfeiriad cofrestredig.



Gweler tudalennau 30-32: 'Y broses gwneud cais'

**Yn y 60 diwrnod cyn eich dyddiad cais ail-ddilysu**

Unwaith y byddwch wedi derbyn eich hysbysiad bydd angen i chi fynd ar-lein i lenwi'r ffurflen gais. Fel rhan o'ch cais, mae angen i chi ddatgan i'r NMC eich bod wedi cydymffurfio gyda'r gofynion ail-ddilysu.



Gweler tudalennau 30-32: 'Y broses gwneud cais'

**Yn dilyn cyflwyno eich cais ail-ddilysu**

Bob blwyddyn byddwn yn dewis sampl o nyrsys a bydwagedd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i ni er mwyn gwirio'r datganiadau a wnaed ganddynt fel rhan o'u cais ail-ddilysu. Os byddwch yn cael eich dewis, ni fydd eich cofrestriad yn cael ei adnewyddu nes i'r broses hon gael ei chyflawni.



Gweler tudalennau 33-35: 'Gwirio eich cais'



# SUT I FYND ATI I

## AIL-DDILYSU

### Deall termau allweddol

1. **Y broses gofrestru:** Bob tair blynedd o'r dyddiad y byddwch chi'n ymuno (neu'n ail-ymuno) â'r gofrestr bydd angen i chi adnewyddu eich cofrestriad trwy ail-ddilysu. Bob blwyddyn byddwch hefyd angen cadw eich cofrestriad trwy dalu ffi cofrestru blynyddol. Os na fyddwch yn cwblhau unrhyw un o'r prosesau hyn ar amser yna bydd eich cofrestriad yn dod i ben.
2. **Dyddiad olaf y ffi:** Y dyddiad olaf i dalu eich ffi cofrestru er mwyn cadw eich cofrestriad.
3. **Dyddiad cais ail-ddilysu:** Y dyddiad olaf i gyflwyno eich cais ail-ddilysu. Hwn fydd y diwrnod cyntaf y mis y bydd eich cofrestriad yn dod i ben, felly os mai 30 Ebrill yw eich dyddiad dod i ben, dyddiad eich cais ail-ddilysu fydd 1 Ebrill.
4. **Dyddiad adnewyddu:** Y dyddiad pan fydd eich cofrestriad yn cael ei adnewyddu os ydych wedi llenwi eich cais ail-ddilysu'n llwyddiannus. Hwn fydd y diwrnod olaf yn y mis y bydd eich cofrestriad yn dod i ben.

### Cadw portffolio

5. Rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn cadw tystiolaeth eich bod wedi bodloni'r gofynion ail-ddilysu mewn portffolio. Nid yw hyn yn golygu ei fod yn angenrheidiol iddo fod yn e-bortffolio; edrychwch ar ein taflen arweiniad ar e-bortffolios ar [revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information](https://www.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information) am ragor o wybodaeth. Rydym wedi darparu ffurflenni a thempledi ar ddiwedd y ddogfen hon ac ar ein gwefan [revalidation.nmc.org.uk/download-resources/forms-and-templates](https://www.nmc.org.uk/download-resources/forms-and-templates), am ragor o wybodaeth. Rydym wedi darparu ffurflenni a thempledi ar ddiwedd y ddogfen hon ac ar ein gwefan [revalidation.nmc.org.uk/download-resources/forms-and-templates](https://www.nmc.org.uk/download-resources/forms-and-templates), lle mae enghreifftiau hefyd o ffurflenni a thempledi wedi'u llenwi er mwyn i chi gyfeirio atynt.
6. Rydym yn disgwyl i unrhyw dystiolaeth gael ei gadw'n Saesneg, ac mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd gyflwyno eu cais ail-ddilysu, ac unrhyw wybodaeth gwirio ddilynol, yn Saesneg.



Mae'r NMC yn cydnabod anghenion diwylliant a iaith y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg (am ragor o wybodaeth gweler [www.nmc.org.uk/about-us/our-equality-and-diversity-commitments/welsh-language-scheme](https://www.nmc.org.uk/about-us/our-equality-and-diversity-commitments/welsh-language-scheme)). Rydym wedi cyhoeddi fersiynau Cymraeg o'n harweiniad ar gyfer nyrsys a bydwragedd, cadarnhawyr a chyflogwyr, yn ogystal â'n templedi a ffurflenni, ar ein gwefan yn [revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information](https://www.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information).

7. Bydd y portffolio'n ddefnyddiol ar gyfer y drafodaeth y byddwch yn ei gael gyda'ch cadarnhâwr (gweler tudalennau 28-30). Byddwch hefyd angen y wybodaeth hon ar gael rhag ofn y byddwn yn gwneud cais i wirio'r datganiadau y gwnaethoch fel rhan o'ch cais (gweler tudalennau 33-35).
8. Efallai eich bod yn cadw portffolio proffesiynol yn barod. Os felly, nid oes angen i chi gadw portffolio ar wahân.

9. Gallwch ddefnyddio'r rhestr wirio ar dudalen 6 i wneud yn siŵr fod yr holl wybodaeth yn eich portffolio cyn i chi gael eich trafodaeth gadarnhau gyda'ch cadarnhâwr neu gyflwyno eich cais ail-ddilysu.
10. Rydym yn awgrymu eich bod yn cadw eich portffolio nes eich ail-ddilysiad nesaf. Er enghraifft, os byddwch yn ail-ddilysu yn 2016, awgrymir y dylech gadw eich portffolio nes i chi gael eich ail-ddilysu eto yn 2019.
11. Ni ddylai eich portffolio gofnodi unrhyw wybodaeth a allai wneud yr unigolyn yn hysbys, p'un ai a yw'r unigolyn hwnnw yn fyw neu wedi farw. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid cofnodi'r holl wybodaeth mewn modd fel na ellir adnabod unrhyw glaf, defnyddiwr gwasanaeth, cydweithiwr neu unigolyn arall o'r wybodaeth. Mae'r adran ar wybodaeth na ellir ei adnabodar dudalennau 11-14 yn darparu canllawiau ar sut i wneud yn siŵr nad yw eich portffolio yn cynnwys gwybodaeth a allai wneud unigolyn yn hysbys.

## Gwrthdaro rhwng buddiannau a delweddau o duedd

12. Gwrthdaro budiannau yw sefyllfa sydd â'r potensial i danseilio eich amhleidioldeb neu eich gwrthrychedd.
13. Mae angen i chi fod yn feddylgar am unrhyw berthynas bersonol neu fasnachol rhyngoch chi, eich cadarnharw a'ch partner ar gyfer y drafodaeth fyfyrion. Ni fyddai'n briodol i aelod o'r teulu y mae gennych berthynas agos â nhw ymgymryd â'r rolau hyn. Bydd angen i chi, eich cadarnhawyr a'ch partner trafodaeth fyfyrion gymryd cyfrifoldeb am benderfynu p'un a oes unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau neu ddelwedd o duedd er mwyn sicrhau fod y broses cadarnhau a'r trafodaethau myfyrion yn cadw hygyrdd ac yn parhau i fod yn wrthrychol. Mewn rhai achosion efallai y byddwch yn dewis defnyddio person gwahanol fel eich cadarnhawr a'ch partner trafodaeth fyfyrion.

## Gwerthusiadau

14. Mae gan nifer o nyrsys a bydwagedd gyflogwyr. Mae'n bwysig i gyflogwyr fod yn ymwybodol o'r Cod a'r safonau sy'n ddisgwyliedig o nyrsys neu fydwagedd yn eu gwaith proffesiynol.
15. Mae gwerthusiadau'n ffordd i gyflogwyr asesu perfformiad eu gweithwyr yn erbyn gofynion eu rôl a chanfod meysydd i'w gwella a'u datblygu.
16. Dyluniwyd y broses ail-ddilysu fel y gellir ymgymryd â hi fel rhan o werthusiad rheolaidd. Os ydych yn weithiwr ac nad ydych yn cael gwerthusiad rheolaidd gallech ystyried gofyn i'ch cyflogwr drefnu gwerthusiad i chi cyn dyddiad cyflwyno'r cais ail-ddilysu.
17. Mae gan drafodaeth cadarnhau ddiben gwahanol i werthusiad, gan ei fod yn ymwneud ag arddangos i gadarnhawr priodol eich bod wedi bodloni'r gofynion ail-ddilysu, yn hytrach na gofynion eich cyflogaeth (gweler yr adran ar Gadarnhau ar dudalennau 34-36 am ragor o wybodaeth). Fodd bynnag, mae'n bosibl ei ymgorffori mewn gwerthusiadu, ac rydym yn awgrymu'n gryf fod eich trafodaethau cadarnhau yn ffurfio rhan o werthusiad blynyddol os ydych yn cael un, a lle bo hynny'n bosibl.
18. Os yw eich rheolwr llinell yn nyrs neu'n fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC, efallai yr hoffech gael eich trafodaeth adlewyrchol a'ch trafodaeth gadarnhau fel rhan o'ch gwerthusiad blynyddol, os ydych yn cael un.

19. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gael trafodaeth gyda'ch cadarnhäwr bob blwyddyn fel rhan o werthusiad blynyddol, fel y gallwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar eich ail-ddilysiad.
20. Os nad ydych yn weithiwr, neu os ydych yn weithiwr ac nad ydych wedi gallu trefnu gwerthusiad cyn dyddiad cyflwyno'r cais ail-ddilysu, byddwch yn gallu adnewyddu eich cofrestrriad o hyd drwy fodloni'r gofynion ail-ddilysu. Nid yw'n ofynnol i chi drefnu i berson neu sefydliad arall gynnal gwerthusiad at ddibenion ail-ddilysu, ond bydd angen i chi gadarnhau eich trafodaethau myfyrfiol a chadarnau o hyd.

## **GWYBODAETH NA ELLIR**

### **EI HADNABOD**

21. Rydych chi'n debygol o broses data personol fel rhan o'ch rôl o ddydd i ddydd. Os ydych chi'n cael eich cyflogi rydych chi'n debygol o ddod o dan cofrestrriad eich cyflogwr o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Os ydych chi'n gweithio fel nyrs neu fydwraig annibynnol neu hunan-gyflogedig rydych chi eisoes yn debygol o fod wedi eich cofrestru o dan ddeddfwriaeth diogelu data yn eich capasiti.
22. Mae'r adran hon yn nodi eich goblygiadau mewn perthynas â chyfrinachedd a diogelu data mewn perthynas â bodloni'r gofynion ail-ddilysu. Nid yw'n cwmpasu eich goblygiadau cyfredol mewn perthynas â deddfwriaeth diogelu data.



Eich goblygiadau mewn perthynas â chyfrinachedd o dan y Cod

## **Eich goblygiadau mewn perthynas â chyfrinachedd o dan y Cod**

23. Mae'r Cod yn nodi'r safonau proffesiynol mae'n rhaid i chi lynu atynt er mwyn cofrestru i weithio yn y DU. Mae Paragraff 5 yn nodi:

## **Parchu hawl pobl i breifatrwydd a chyfrinachedd**

Fel nyrs neu fydwaig, mae gennych chi ddyletswydd i gynnig cyfrinachedd i'r holl bobl sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn wybodus am eu gofal a bod gwybodaeth amdanynt yn cael ei rannu'n briodol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi:

- barchu hawl person i breifatrwydd ym mhob agwedd ar eu gofal (5.1)
- sicrhau fod pobl yn wybodus o ran sut a pham fod gwybodaeth yn cael ei rhannu gan y rhai hynny fydd yn cynnig gofal (5.2)
- parchu fod hawl rhywun i breifatrwydd a chyfrinachedd yn parhau wedi iddyn nhw far (5.3)
- rhannu gwybodaeth angenrheidiol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau eraill pan fydd buddiannau diogelwch y claf a diogelwch cyhoeddus yn diystyru'r angen am gyfrinachedd, a (5.4)
- rhannu gyda phobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr, cyn belled ag y bo'r gyfraith yn ei ganiatau, y wybodaeth maen nhw eisiau neu angen ei wybod am eu hiechyd, gofal a thriniaeth barhaus yn sensitif ac mewn ffordd y gallant ei ddeall. (5.5)

## **Sicrhau nad yw eich tystiolaeth yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol**

24. Wrth fodloni gofynion yr ail-ddilysiad a chadw eich tystiolaeth, ni ddylech gofnodi unrhyw wybodaeth allai ei gwneud yn bosibl i adnabod unigolyn, p'un a yw'r unigolyn yn fyw neu wedi marw. Mae hyn yn golygu fod rhaid cofnodi'r holl wybodaeth mewn ffordd fel na allai unrhyw glaf, defnyddiwr gwasanaeth, cydweithiwr nag unigolyn arall gael ei adnabod o'r wybodaeth.
25. Er enghraifft, ni ddylai unrhyw nodiadau neu fyfyradau gynnwys:
  - enw unrhyw unigolyn;
  - dyddiad unrhyw ddigwyddiad neu achos a gyfeirir ato;
  - y ward neu'r lle penodol y digwyddodd yr achos, neu
  - ddisgrifiadau o amgylchiadau unigryw lle gellir adnabod unigolyn o'r amgylchiadau.
26. Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth sy'n cael ei echdynnu o ddata cyflogwr (megis cofnodion cwynion) gael ei echdynnu mewn ffordd fel nad yw unrhyw wybodaeth sy'n galluogi adnabod unigolyn yn cael ei gasglu, ei ddefnyddio neu ei gofnodi. Er enghraifft, ni ddylech anfon negeseuon e-bost gwaith i'ch cyfrif personol, neu lawrlwytho a chymryd copïau o gofnodion cyflogwr.

## **Senarios enghreifftiol**

27. Byddwch yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw data personol yn gyfrinachol, a pheidio â phrosesu gwybodaeth bersonol y tu allan i leoliad eich cyflogaeth neu waith. Fodd bynnag, rydym wedi rhoi rhai enghreifftiau isod i ddangos sut y gellir cofnodi adborth mewn modd fel na ellir adnabod unrhyw unigolyn.

## Senario 1

Ym mis Ionawr 2015 roedd Mrs Jones yn ward 8 gyda chlun wedi'i dorri. Gwnaeth gwyn am ddiffyg hydradiad. Rydych chi am ddefnyddio'r adborth hwn yn un o'ch cofnodion myfyriol fe enghraifft o ble rydych chi wedi rhoi proses newydd ar waith er mwyn sicrhau fod yr holl gleifion yn cael cynnig dwr yn rheolaidd.

Yn eich cofnod myfyriol gallech ddweud: "Fe wnaeth claf gydag anaf difrifol gwyno am y diffyg hydradiad."

Nid oes unrhyw ddyddiadau, enwau na wardiau wedi'u cynnwys yn y cofnod, ac mae'r math o anaf hefyd wedi'i hepgor, felly ni ellir adnabod Mrs Jones o'r wybodaeth hon. Gallwch egluro beth wnaethoch chi, pa welliant wnaethoch chi a sut roedd hyn yn berthnasol i'r Cod.

## Senario 2

Wrth adolygu'r cofnod cwynion sydd gan yr uned mamolaeth lle rydych chi'n gweithio, rydych chi'n sylwi ar gwyn gan Mrs Smith mewn perthynas â'r diffyg parhâd mewn gofal a throsglwyddo rhwng bydwagedd ar ddiwedd sifft ar 12 Ionawr 2015. Roeddech chi'n un o'r bydwagedd oedd yn rhan o'r senario, ynghyd â'ch cydweithiwr Sarah. Roeddech chi wedi trafod hyn gyda'ch cydweithwyr ac wedi gwneud gwelliannau yn y ffordd rydych chi'n trosglwyddo ar ddiwedd sifft. Rydych chi am ddenyddio'r adborth hwn yn un o'ch cofnodion myfyriol.

Cyn ysgrifennu eich cofnod myfyriol, mae angen i chi wirio gyda'ch cyflogwr y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth o'r cofnod cwynion. Yn eich cofnod gallech ddweud: 'Derbyniwyd cwyn gan fam am y diffyg parhâd mewn gofal a'r trosglwyddo rhyngof fi a'm cydweithiwr ar ddiwedd sifft.'

Nid oes unrhyw wybodaeth yn ein galluogi i adnabod unrhyw unigolyn, gan gynnwys y fam a'ch cydweithiwr, wedi'i gynnwys yn y cofnod. Gallwch egluro beth wnaethoch chi, pa welliant wnaethoch chi a sut roedd hyn yn berthnasol i'r Cod.

## Storio eich ffurflen cofnodion myfyriol, eich ffurflen trafodaeth myfyriol a'ch ffurflen cadarnhau

28. Nid oes disgwyl i chi gyflwyno'r ffurflenni hyn i'r NMC ar unrhyw bwynt yn y cais ail-ddilysu. Nid oes gofyn i chi eu storio'n electronig neu eu huwchlwytho i NMC Ar-lein fel rhan o'ch cais, neu os ydych chi'n cael eich dewis i roi gwybodaeth bellach i ddilysu eich tystiolaeth.
29. Mae eich ffurflen trafodaeth myfyriol a'ch ffurflen gadarnhau yn cynnwys data personol am berson arall. Mae hyn yn golygu bod goblygiadau diogelu data ar gyfer nyrsys a bydwagedd sy'n llenwi'r ffurflenni hyn. Fodd bynnag, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn cydnabod y byddai'n gwbl afresymol i ddisgwyl i nyrsys a bydwagedd gofrestru gyda nhw fel rheolwyr data. Mae'r ICO wedi cadarnhau nad yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau yn erbyn unrhyw nyrs neu fydwrraig am fethu â chofrestru.

30. Gallwch ddewis storio eich ffurflenni cadarnhau a trafodaeth fyfyrion cyflawni naill ai ar bapur neu'n electronig. Dylech barchu'r ffaith fod y ffurflenni hyn yn cynnwys data personol am eich partner trafodaeth fyfyrion a'ch cadarnhawr. Gweler ein taflen arweiniad ar e-bortffolios am ragor o wybodaeth ar [revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information](https://revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information).



Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau ar ddiogelu data yn [ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection](https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection)

Maen nhw hefyd wedi cyhoeddi canllawiau yn benodol ar anhysbysrwydd yn [ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/anonymisation](https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/anonymisation)

## ORIAU GWAITH

### Y gofynion

31. Mae'n rhaid eich bod wedi gweithio am y nifer lleiaf o oriau dros y tair blynedd ers i'ch cofrestrriad gael ei adnewyddu y tro diweddar neu ers i chi ymuno â'r gofrestr.<sup>6</sup>

Cofrestrriad	Y nifer lleiaf o oriau gwaith angenrheidiol
Nyrs	Angen 450 o oriau gwaith
Bydwraig	Angen 450 o oriau gwaith
Nyrs a SCPHN (Nyrs/SCPHN)	Angen 450 o oriau gwaith
Bydwraig a SCPHN (Bydwraig/SCPHN)	Angen 450 o oriau gwaith
Nyrs a Bydwraig (gan gynnwys Nyrs/SCPHN a Bydwraig/SCPHN)	Angen 900 o oriau gwaith (1 gynnwys 450 o oriau ar gyfer nyrsio, 450 o oriau ar gyfer bydwreigiaeth)



Mae Nyrs Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol (SCPHN) yn golygu nyrs neu fydwraig sydd hefyd wedi cofrestru ar y rhan Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol ar y gofrestr.

32. Os ydych wedi gweithio am nifer llai o oriau na'r oriau angenrheidiol yn y tair blynedd ers i chi adnewyddu eich cofrestriad diwethaf neu ers i chi ymuno â'r gofrestr, yna mae'n rhaid i chi gwblhau rhaglen dychwelyd i waith priodol sydd wedi'i gymeradwyo gan yr NMC yn briodol cyn dyddiad eich cais i adnewyddu eich cofrestriad.<sup>7</sup>
33. Os yw nyrsys neu fydwragedd cofrestredig wedi cael eu symud i ran arall o'r gofrestr ers i'w cofrestriad gael ei adnewyddu ddiwethaf neu ers iddyn nhw ymuno â'r gofrestr, dim ond yr oriau gwaith angenrheidiol ar gyfer eu cofrestriad gwreiddiol sydd yn rhaid iddynt eu cyflawni. Bydd angen iddynt fodloni'r gofynion oriau gwaith i gofrestru yn y ddwy ran mewn cyfnodau ail-ddilysu tair blynedd dilynol.<sup>8</sup>

## Diben y gofynion hyn

34. Dyluniwyd y gofynion oriau gwaith i helpu nyrsys a bydwraidd i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol, ac i gadw'u sgiliau'n gyfoes.

## Sut i fodloni'r gofynion

35. Dim ond yr oriau gwaith yr ymgwymerwyd â hwy pan oeddech wedi eich cofrestru gyda'r NMC y gallwch eu cyfri. Ni allwch gyfri gwaith heb eich cofrestru tuag at yr oriau gofynnol.
36. Mae'n rhaid i chi fodloni'r oriau gwaith mewn rôl lle rydych yn dibynnu ar eich sgiliau, gwybodaeth a phrofiad o fod yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig.
- Mae hyn yn cynnwys gwaith fel nyrs, bydwraig a SCPHN, mewn rolau sy'n gofyn am gofrestriad;
  - Mae hefyd yn cynnwys nyrsys a bydwraidd sy'n dibynnu ar eu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad o fod yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig, ond sydd mewn rolau nad yw eu cytundebau cyflogaeth yn nad yw'n angenrheidiol iddynt fod wedi'u cofrestru gyda ni. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys swyddi yn iechyd y cyhoedd neu reolaeth nyrsio neu fydwreigiaeth, comisiynu, polisi ac addysg;
  - Gallai hyn gynnwys gwaith a wnaed mewn swyddi gwirfoddol, lle mae nyrs neu fydwraig yn dibynnu ar ei sgiliau, gwybodaeth a phrofiad o fyd yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig.
37. Ni ellir cyfrif y gweithgareddau canlynol tuat at y gofyniad oriau gwaith:
- Ni ellir cyfrif unrhyw oriau a wnaed mewn swyddi gofal iechyd, cymhorthydd nyrsio neu fydwreigiaeth neu swyddi gweithiwr cefnogi tuag at oriau gwaith fel nyrs neu fydwraig gofrestredig.
  - Ni all nyrsys sy'n cymryd rhaglen bydwreigiaeth ddefnyddio eu horiau hyfforddi fel bydwraig er mwyn cadw eu cofrestriad fel nyrs. Byddant yn gallu defnyddio unrhyw oriau a gyflawnwyd fel nyrs, naill ai cyn neu ar ôl y cwrs bydwreigiaeth, yn ystod y cyfnod o dair blynedd.
38. Dylai oriau gweithio adlewyrchu eich cwmpas cyfredol o waith. Nid oes yn rhaid i oriau gwaith fod yn berthnasol i'ch maes gwaith gwreiddiol pan fu i chi ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf. Beth bynnag fo'ch rôl, mae'n rhaid i chi gydymffurfio a The Code: professional standards of practice and behaviour for nurses and midwives. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i ganfod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysedd.
39. Os ydych chi'n gweithio dramor (neu wedi gweithio dramor am y rhan fwyaf o'r cyfnod adnewyddu o dair blynedd) fel nyrs neu fydwraig gallwch fodloni'r gofynion gweithio ar sail eich cofrestriad gyda'r NMC. Dylech bob amser gofrestru gyda'r rheoleidiwr priodol yn y wlad rydych chi'n gweithio ynddi.



Mae rhagor o wybodaeth am weithio y tu allan i'r DU a dychwelyd i weithio ar gael ar ein gwefan [www.nmc.org.uk/registrations](http://www.nmc.org.uk/registrations)

40. Os ydych wedi cael egwyl gyrfa, byddwch yn gallu bodloni'r oriau gwaith angenrheidiol o hyd os ydych wedi cyflawni'r oriau gweithio gofynnol fel nyrs neu fydwraig yn ystod y cyfnod ail-ddilysu o dair blynedd.
41. Rydym wedi cynhyrchu dwy daflen arweiniad ar oriau gwaith, un i'r rhai sydd wedi cofrestru fel nyrs a bydwraig, ac un ar gyfer y rhai gyda chofrestriad arbenigedd neu gofrestru ychwanegol, gan gynnwys y rhai sy'n fydwraig/SCPHN ond sy'n gweithio mewn rôl SCPHN yn unig. Gweler ein gwefan ar [revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information](https://www.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information).
42. Os nad ydych wedi gwneud unrhyw fath o waith lle roeddech yn dibynnu ar eich sgiliau, gwybodaeth neu brofiad fel nyrs neu fydwraig gofrestredig, neu os nad ydych yn gallu bodloni'r oriau gwaith angenrheidiol, mae gennych ddau ddewis:
- Gallwch gwblhau rhaglen dychwelyd i waith briodol sydd wedi'i chymeradwyo gan NMC yn llwyddiannus cyn dyddiad eich cais ail-ddilysu. Mae'r rhaglenni hyd wedi'u dylunio i ganiatáu i chi adnewyddu eich cofrestriad a dychwelyd i weithio yn dilyn toriad yn eich gwaith. Mae rhagor o wybodaeth am raglenni dychwelyd i weithio ar gael ar ein gwefan yn [www.nmc.org.uk/registration/returning-to-the-register/return-course](https://www.nmc.org.uk/registration/returning-to-the-register/return-course), or
  - Gallwch ganslo eich cofrestriad. Bydd gennych gymhwyster nyrsio neu fydwreigiaeth o hyd, ond ni fydd yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig. Gallwch wneud cais i gael eich ail-dderbyn ar y gofrestr yn y dyfodol os byddwch yn dymuno gweithio fel nyrs neu fydwraig. Mae gwybodaeth ar ganslo eich cofrestriad a cheisio cael eich ail-dderbyn ar y gofrestr ar gael ar ein gwefan yn [www.nmc.org.uk/registration](https://www.nmc.org.uk/registration).
43. Os byddwch yn dewis i beidio ag adnewyddu eich cofrestriad a dod oddi ar y gofrestr (sy'n cynnwys canslo eich cofrestriad), ni allwch ddibynnu ar unrhyw oriau gweithio y gwnaethoch ymgymryd â hwy mewn rôl wedi'r dyddiad pan wnaethoch beidio bod yn gofrestredig at ddibenion ail-dderbyn ar y gofrestr. Nid yw gwaith nad yw'n gofrestredig yn cyfrif tuag at fodloni'r gofynion ail-dderbyn.

## Sut i gofnodi oriau gwaith

44. Rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn cadw cofnod o'r oriau gwaith yr ydych wedi'u cyflawni. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r drafodaeth a gewch gyda'ch cadarnhäwr, a byddwch hefyd angen y wybodaeth hon rhag ofn ein bod yn gwneud cais i'w weld i ddilysu eich oriau gwaith. Dylai'ch cofnodion gynnwys:
- dyddiadau'r gwaith;
  - y nifer o oriau a gyflawnwyd;
  - enw, cyfeiriad a chod post y sefydliadau;
  - cwmpas y gwaith (gweler y blwch awgrym isod);
  - lleoliad gwaith (gweler y blwch awgrym isod);
  - disgrifiad o'r gwaith a gyflawnwyd, a
  - tystiolaeth o'r oriau gwaith hynny, fel taflenni amser, manylebau swyddi a phroffiliau rol.
45. Nid yw'n angenrheidiol i chi gofnodi oriau gweithio unigol. Gallwch ddisgrifio eich oriau gweithio yn nhermau dyddiau neu wythnosau gwaith safonol.



# Yr hyn yr ydych angen ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

46. Pan fyddwch yn gwneud cais ail-ddilysu, mae angen i chi ddatgan a ydych wedi bodloni'r gofyniad oriau gwaith. Dim ond am yr oriau mwyaf diweddar yr ydych wedi'u cyflawni i fodloni'r gofyniad ar gyfer eich cofrestriad yr ydych angen dweud wrthym. Os ydych yn gweithio ar hyn o bryd mewn mwy nag un lleoliad, dywedwch wrthym yn gyntaf am yr un yr ydych yn ystyried fel eich prif lleoliad.
47. Gofynnir i chi gyflwyno'r manylion canlynol:
- p'un ai ydych yn gweithio ar hyn o bryd;
  - os ydych yn gweithio ar hyn o bryd, lle rydych yn gweithio, gan gynnwys manylion am gwmpas y gwaith a lleoliad gwaith
  - os nad ydych yn gweithio ar hyn o bryd, lle roeddech yn gweithio ddiwethaf, gan gynnwys manylion am gwmpas y gwaith a lleoliad gwaith.
48. Yn y blwch awgrym isod rydyn ni'n rhestru'r amrywiaeth o ran cwmpas y gwaith a lleoliad gwaith rydyn ni'n eu cynnig yn y cais ar-lein. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol ein bod wedi dewis yr opsiynau hyn i'n helpu i gasglu eich gwybodaeth am gwmpas a lleoliad y gwaith. P'un a yw eich cwmpas a'ch lleoliad gwaith yn cyfateb i'r opsiynau yn y rhestr, neu p'un a fyddwch chi'n dewis 'Arall' ar gyfer y naill restr neu'r llall, mae fyny i chi benderfynu p'un a ydych chi'n bodloni'r gofyniad oriau gwaith drwy weithio mewn rôl lle rydych chi'n dibynnu ar eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad o fod yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig.
49. Os ydych wedi cwblhau cwrs dychwelyd i'r gwaith neu wedi cael eich symud i ran arall o'r gofrestr bydd eich datganiad oriau gwaith fel a ganlyn:
- Os ydych wedi cwblhau cwrs dychwelyd i'r gwaith wedi'i gymeradwyo yn ddiweddar ers i chi adnewyddu eich cofrestriad ddiwethaf neu ers i chi ymuno â'r gofrestr, byddwch yn gallu bodloni'r oriau gwaith ar gyfer y cofrestriad hwnnw.
  - Os ydych wedi cael eich symud i ran arall ar y gofrestr ers i chi adnewyddu eich cofrestriad ddiwethaf neu ers i chi ymuno â'r gofrestr (er enghraifft yrs sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant fel bydwraig ac wedi ennill ail gofrestriad fel bydwraig), dim ond ar gyfer eich cofrestriad gwreiddiol sydd angen i chi fodloni'r gofynion oriau gwaith.
  - Am ragor o wybodaeth am yr hyn y bydd angen i chi ddweud wrthym ar gyfer y rhan oriau gwaith o'ch cais ail-ddilysu yn yr amgylchiadau hyn gweler ein taflen arweiniad ar dychwelyd i'r gwaith a chofrestriad newydd ar **[revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information](https://revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information)**.
50. Noder y tro nesaf y byddwch yn gwneud cais am ail-ddilysu, os hoffech adnewyddu eich cofrestriad ar y ddau rhan o'r gofrestr a pharhau i weithio fel nyrs bydwraig, bydd angen i chi fodloni'r gofynion oriau ar gyfer y ddau ran.



## Cwmpas gwaith

Rheolaeth neu ofal clinigol uniongyrchol: nyrsio oedolion a phlant cyffredinol; nyrsio plant a gofal cyn geni; nyrsio iechyd meddwl; nyrsio anabledau dysgu; bydwreigiaeth; ymwelydd iechyd; iechyd galwedigaethol; nyrsio ysgol; iechyd cyhoeddus; arall Comisiynu, Addysg, Polisi, Sicrhau ansawdd neu arolygy, Ymchwil, Arall

## Lleoliad gwaith

Gwasanaeth ambiwlans, Sector gofal cartref, Lleoliad yn y gymuned (gan gynnwys nyrsio lleol a nyrsio seiciatryddol cymunedol), Ymgynghoriaeth, Sector Cosmetig neu Esthetig, Corff llywodraethu neu arweinyddiaeth arall, Meddygfa neu ofal sylfaenol arall, Ysbyty neu ofal eilaidd arall, Arolygiaeth neu reoleiddiwch, Yswiriant neu gyfreithiol, Uned mamolaeth neu ganolfan eni, Milwrol, Iechyd galwedigaethol, Yr Heddlu, Sefydliad polisi, Carchar, Lleoliad domestig preifat, Sefydliad iechyd cyhoeddus, Ysgol, Gofal arbenigol neu drydyddol gan gynnwys hospis, Cyngor ffôn neu ar y we, Undeb masnach neu gorff proffesiynol, Prifysgol neu gyfleuster ymchwil arall, sector gwirfoddol neu elusennol, Arall.

# DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

## PARHAUS (DPP)

### Y gofynion

51. Mae'n rhaid i chi fod wedi cymryd rhan mewn 35 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) perthnasol i gwmpas eich gwaith fel nyrs neu fydwaig, yn ystod y tair blynedd ers i'ch cofrestrriad gael ei adnewyddu ddiwethaf neu ers i chi ymuno a'r gofrestr.<sup>9</sup>
52. O'r 35 awr hynny o DPP, mae'n rhaid i o leiaf 20 fod yn cynnwys dysgu cyfranogol.<sup>10</sup>
53. Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion cywir o'r DPP yr ydych wedi'i gyflawni. Mae'n rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys:
  - dull y DPP;
  - disgrifiad o'r testun a sut roedd o'n berthnasol i'ch gwaith;
  - y dyddiadau pan gynhaliwyd y gweithgaredd;
  - y nifer o oriau (gan gynnwys y nifer o oriau cyfranogol);
  - nodi'r rhan o'r Cod sy'n fwyaf perthnasol i'r gweithgaredd; a
  - thystiolaeth eich bod wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd DPP.<sup>11</sup>

## Diben y gofynion hyn

54. Fel gweithiwr proffesiynol mae gennych ddyletswydd i gadw'ch gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfoes trwy broses barhaus o ddysgu ac adlewyrchu.
55. Mae'r gofynion DPP wedi'u dylunio i helpu nyrsys a bydwagedd i weithio'n ddiogel ac effeithiol, i wella'u ffordd o weithio ac i ddatblygu sgiliau newydd lle mae bwlch wedi'i nodi ac ymateb i newidiadau ac unrhyw symud ymlaen mewn nyrsio a bydwreigiaeth.
56. Mae'r gofyniad cyfranogol hefyd yn helpu i herio arwahanrwydd proffesiynol drwy ei gwneud yn ofynnol i ymgysylltu a chyfathrebu ag eraill.

## Sut i fodloni'r gofynion

57. Mae DPP yn weithgaredd dysgu rydych chi'n cymryd rhan ynddo i ffwrdd o'ch gwaith arferol. Mae hyn yn wahanol i'r dysgu dyddiol mae pob gweithiwr proffesiynol yn ei wneud fel rhan o'u gwaith parhaus.
58. Dylai unrhyw weithgareddau dysgu rydych chi'n cymryd rhan ynddynt fod yn berthnasol i'ch cwmpas gwaith fel nyrs neu fydwraig. Pan fyddwch chi'n cynllunio, yn cymryd rhan ac yn cofnodio eich DPP dylech ganolbwyntio ar beth rydych chi'n ei ddysgu, sut mae'n gysylltiedig â'ch cwmpas gwaith a sut y gallwch ei ddefnyddio yn eich gwaith.
59. Ni nodwyd unrhyw fath penodol o DPP. Credwn eich bod chi mewn sefyllfa well i benderfynu pa weithgaredd dysgu fyddai'n fwyaf addas ac o'r budd mwyaf i'ch cwmpas unigol chi o waith. Rydym wedi cynhyrchu taflen arweiniad sy'n rhestru rhai weithgareddau DPP unigol a chyfranogol y gallwch gymryd rhan ynddynt (gweler [revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information](https://revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information)). Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac fe'i darparwyd fel enghraifft yn unig.
60. Rydym yn gwybod fod nifer o sefydliadau'n ei gwneud yn ofynnol i staff ymgymryd â hyfforddiant gorfodol. Dylai unrhyw weithgaredd dysgu y byddwch yn cymryd rhan ynddo fod yn berthnasol i gwmpas eich gwaith fel nyrs neu fydwraig. Felly, ni ddylid cynnwys hyfforddiant gorfodol nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch gwaith (er enghraifft, hyfforddiant tan neu hyfforddiant iechyd a diogelwch fel rhan o'ch 35 awr o DPP. Fodd bynnag, os byddwch yn cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant gorfodol sydd yn angenrheidiol ar gyfer cwmpas eich gwaith a'ch datblygiad proffesiynol (er enghraifft, hyfforddiant gorfodol ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb os ydych mewn rol polisi), gallwch gynnwys hynny.
61. Mae dysgu cyfranogol yn cynnwys unrhyw weithgareddau dysgu lle rydych chi'n bersonol yn rhyngweithio gyda phobl eraill. Mae'n weithgaredd sy'n cael ei gynnal gydag un neu fwy o bobl broffesiynol mewn lleoliad ar gyfer grŵp mwy. Nid oes yn rhaid i'r grŵp fod mewn amgylchedd corfforol cyffredin, fel mewn grŵp astudio neu gynhadledd. Gallai fod yn grŵp mewn amgylchedd rhithiol (fel grŵp trafod ar-lein). Nid oes yn rhaid i'r bobl broffesiynol y byddwch chi'n ymwneud â nhw drwy ddysgu cyfranogol fod yn bobl broffesiynol o faes gofal iechyd.

## Sut i gofnodi DPP

62. Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion cywir o'ch gweithgareddau DPP, ac rydym wedi rhoi templed i'ch helpu gyda hyn. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r drafodaeth gyda'ch cadarnhäwr, a byddwch hefyd angen cael y wybodaeth yma wrth law rhag ofn y byddwn yn gwneud cais i'w weld er mwyn gwirio eich cais. Rydym wedi darparu templed i'ch helpu i gofnodi eich gweithgareddau DPP. Dylai eich cofnodion gynnwys:

- dull y DPP;
- disgrifiad byr o'r testun a sut mae'n berthnasol i'ch gwaith;
- dyddiadau pan gynhaliwyd y DPP;
- y nifer o oriau a nifer o oriau cyfranogol;
- nodi'r rhan o'r Cod sydd yn fwyaf perthnasol i'r DPP, a
- thystiolaeth o'r gweithgaredd DPP ((rydym yn darparu enghreifftiau o'r math o dystiolaeth y gallwch ei gofnodi mewn taflen arweiniad; gweler [revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information](https://revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information)).

## Yr hyn yr ydych angen ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

63. Mae angen i chi ddatgan eich bod wedi bodloni'r gofyniad DPP.

**ADBORTH YN YMWNEUD**

**Â GWAITH**

## Y gofyniad

64. Mae'n rhaid i chi fod wedi cael pum darn o adborth sy'n ymwneud a gwaith yn ystod y tair blynedd ers i chi adnewyddu eich cofrestriad ddiwethaf neu ers i chi ymuno â'r gofrestr.<sup>12</sup>

## Diben y gofyniad hwn

65. Bwriad yr adborth yn ymwneud â gwaith yw annog nyrsys a bydwragedd i fod yn fwy ymatebol i anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt. Mae angen i nyrsys a bydwragedd geisio cael adborth gan y rheiny maen nhw'n gweithio a nhw ac yn gofalu amdanynt, ac mae'n rhaid iddynt ddefnyddio'r adborth hwnnw i wneud gwelliannau i'w ffordd o weithio.

## Sut i fodloni'r gofyniad hwn

66. Rydym yn awgrymu eich bod yn ceisio cael adborth o amrywiaeth o ffynonellau, er enghraifft:
- adborth gan gleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, gofawyr neu fyfyrwyr fel rhan o'ch gwaith o ddydd i ddydd;
  - adborth gan gydweithwyr fel nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd;
  - adborth gan gydweithwyr sy'n rheoli, ar y dderbynfa, mewn swyddi cynorthwyol, yn ogystal â gan gyd athrawon, ymchwilwyr, academyddion neu gydweithwyr polisi;
  - cwynion;
  - adroddiadau perfformiad tîm;
  - adolygu digwyddiadau difrifol, ac
  - adborth a dderbyniwyd trwy eich gwerthusiad blynyddol.
67. Mathau o adborth:
- gall adborth fod am eich gwaith unigol neu am waith eich tîm, ward, uned neu sefydliad (dylech fod yn glir am yr effaith a gafodd yr adborth ar eich gwaith);
  - ffurfiol neu anffurfiol;
  - ysgrifenedig neu lafar, a
  - cadarnhaol neu adeiladol.
68. Mae'n debyg y byddwch wedi derbyn amrywiaeth o adborth yn barod. Mewn nifer o sefydliadau, mae adborth eisoes yn cael ei gasglu mewn amryw o ffyrdd. Mae'n rhaid i chi gael caniatâd i weld neu ddefnyddio gwybodaeth eich cyflogwr. Mae'n rhaid dyfynnu gwybodaeth mewn ffordd nad yw'n cael, defnyddio na'n cofnodi gwybodaeth sy'n gwneud unigolyn yn hysbys. Er enghraifft, mae'n rhaid i chi beidio ag anfon e-byst gwaith ymlaen i'ch cyfrif personol, neu lawrlwytho a chymryd copiau o gofnodion eich cyflogwr. Gweler yr adran ar wybodaeth na ellir ei hadnabod ar dudalennau 11-14 am ragor o wybodaeth..
69. Pe byddech yn dewis ceisio cael adborth yn uniongyrchol gan gydweithwyr, cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth, mae'n rhaid i chi ei wneud yn glir yn eich cais na fydd unrhyw wybodaeth a fyddai'n gwneud yr unigolyn yn hysbys yn cael ei gynnwys yn unrhyw adborth a ddarperir. Dylech hefyd ddweud wrthynt sut yr ydych yn bwriadu defnyddio eu hadborth, a sicrhau cleifion na fydd unrhyw adborth yn effeithio ar y gofal maen nhw'n ei dderbyn.

## Sut i gofnodi adborth

70. Awgrymwn eich bod yn cadw nodyn o gynnwys unrhyw adborth y byddwch yn ei gael, gan gynnwys sut y gwnaethoch ei ddefnyddio yn eich gwaith. Bydd hyn yn ddefnyddiol i chi ei ddefnyddio wrth i chi baratoi eich adroddiadau adlewyrchol. Rydym wedi darparu templech i'ch helpu i gofnodi eich adborth.
71. Gallech ddewis i gasglu mwy o adborth ond i fodloni'r gofyniad ail-ddilysu dim ond manylion am bum darn o adborth sydd ei angen.
72. Yn unrhyw nodyn y byddwch chi'n ei gadw, mae'n rhaid i chi beidio â chofnodi unrhyw wybodaeth a allai wneud yr unigolyn yn hysbys, p'un ai yw'n fyw neu'n farw. Mae'r adran ar wybodaeth na ellir ei hadnabod ar dudalennau 11-14 yn darparu arweiniad ar sut i wneud yn siŵr nad yw eich nodiadau'n cynnwys unrhyw wybodaeth a allai wneud unigolyn yn hysbys.

## Yr hyn yr ydych angen ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

73. Rydych angen datgan eich bod wedi bodloni'r gofyniad adborth.

# ADRODDIADAU ADLEWYRCHOL

## YSGRIFENEDIG

### Y gofyniad

74. Mae'n rhaid i chi fod wedi paratoi pum adroddiad adlewyrchol ysgrifenedig yn ystod y tair blynedd ers i'ch cofrestriad gael ei adnewyddu ddiwethaf neu ers i chi ymuno a'r gofrestr. Mae'n rhaid cofnodi pob adroddiad yn y ffurf sydd wedi'i gymeradwyo ac mae'n rhaid iddo gyfeirio at:
- enghraifft o'ch DPP, a/neu
  - darn o adborth yn ymwneud â gwaith yr ydych wedi'i dderbyn, a/neu
  - digwyddiad neu brofiad yn eich gwaith proffesiynol eich hun a sut mae hwn yn berthnasol i'r Cod

### Diben y gofyniad hwn

75. Rydym am annog nyrsys a bydwragedd i gymryd rhan mewn gwaith adlewyrchol er mwyn iddynt ganfod unrhyw newidiadau neu welliannau y gallant wneud yn eu gwaith yn seiliedig ar yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu.
76. Dylai'r gofyniad hwn hefyd godi ymwybyddiaeth o'r Cod ac annog nyrsys a bydwragedd i ystyried rol y Cod yn eu gwaith a'u datblygiad proffesiynol.

### Sut i fodloni'r gofyniad

77. Gall pob adroddiad adlewyrchol fod am enghraifft o DPP, adborth, digwyddiad neu brofiad yn eich gwaith fel nyrs neu fydwrraig, neu gyfuniad o'r rhain. Er enghraifft, gallwch greu adroddiad adlewyrchol ar destun penodol sydd efallai wedi codi drwy adborth a dderbyniodd eich tîm yn dilyn digwyddiad, fel caniatâd a chyfrinachedd a nodi sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Cod.

### Sut i gofnodi eich adroddiadau adlewyrchol

78. Rydym wedi darparu ffurflen y mae'n rhaid i chi ei defnyddio i gofnodi adroddiadau adlewyrchol. Mae'n rhaid i chi egluro beth a ddysgwyd o'r gweithgaredd DPP, adborth, digwyddiad neu brofiad, sut y gwnaeth newid neu wella eich gwaith o ganlyniad, a sut mae'n berthnasol i'r Cod.
79. Gellir ysgrifennu'r ffurflen hon a llawn, ei theipio neu, os yw'n angenrheidiol, ei arddweud.
80. Ni ddylai eich adroddiadau adlewyrchol gynnwys unrhyw wybodaeth a allai wneud unigolyn yn hysbys, p'un ai a yw'r unigol yn fyw neu wedi marw. Mae'r adran ar wybodaeth na ellir ei hadnabod ar dudalennau 11-14 yn darparu arweiniad ar sut i wneud yn siŵr nad yw eich adroddiadau adlewyrchol yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai wneud unigolyn yn hysbys.
81. Nid yw'n angenrheidiol i chi gyflwyno copi o'ch adroddiadau adlewyrchol i'r NMC. Fodd bynnag, dylech gadw'r rhain fel cofnod i fod yn sail i'ch trafodaeth adlewyrchol ac i ddangos i'ch cadarnhâwr.

# Yr hyn yr ydych angen ei ddweud wrthym yn eich cais arlein

82. Mae angen i chi ddatgan eich bod wedi bodloni'r gofynion ar gyfer adroddiadau adlewyrchol ysgrifenedig.

## TRAFODAETH ADLEWYRCHOL

### Y gofyniad

83. Mae'n rhaid eich bod wedi cael trafodaeth adlewyrchol gydag aelod arall o gofrestr NMC, gan roi sylw i'ch pum adroddiad adlewyrchol ysgrifenedig a'ch DPP a/neu adborth yn ymwneud a gwaith a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eich gwaith a sut mae hwn yn berthnasol i'r Cod.<sup>13</sup>
84. Mae'n rhaid i chi sicrhau fod y sawl sydd wedi cofrestru gyda'r NMC yr ydych yn cael y drafodaeth adlewyrchol â hwy yn arwyddo'r ffurflen gymeradwyo gan gofnodi eu henw, Pin NMC, e-bost, cyfeiriad proffesiynol a chod post yn ogystal â dyddiad y drafodaeth.<sup>14</sup>

### Diben y gofyniad hwn

85. Bydd y gofyniad hwn yn annog diwylliant o rannu, adlewyrchu a gwella. Mae'n gwneud hyn mewn dwy ffordd; drwy ofyn i nyrsys a bydwragedd drafod eu datblygiad proffesiynol a gwelliant, a thrwy sicrhau nad yw nyrsys a bydwragedd yn cymryd rhan mewn arwahanrwydd proffesiynol.

### Sut i fodloni'r gofyniad hwn

86. Mae'n rhaid i chi drafod eich adroddiadau adlewyrchol ysgrifenedig gyda nyrs neu fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC fel rhan o drafodaeth adlewyrchol. Yn y drafodaeth byddwch chi a'ch partner trafodaeth fyfyrion yn cysylltu eich cofnodion myfyriol gyda'r Cod, felly mae'n bwysig fod y ddau ohonoch chi'n gyfarwydd â'r safonau proffesiynol a gyfwlynir yn y Cod, ac yn gweithio i'r rhain. Mae'n rhaid i'r nyrs neu'r fydwraig fod â chofrestriad effeithiol gyda'r NMC. Yn hyn o beth rydym yn golygu na allant fod yn destun unrhyw orchymyn gwaharddiad dros dro, tynnu oddi ar y gofrestr neu wahardd pan gynhelir y drafodaeth.
87. Gallant fod yn rhywun yr ydych yn gweithio gyda nhw'n aml neu'n rhywun o rwydwaith broffesiynol neu grŵp dysgu. Nid oes angen i chi weithio gyda nhw o ddydd i ddydd ac nid oes angen i chi fod yn gwneud yr un math o waith. Nid oes angen i chi fod ar yr un rhan o'r gofrestr â nhw (felly gallai nyrs gael trafodaeth adlewyrchol gyda bydwraig a vice versa). Chi sydd i benderfynu ar y person mwyaf priodol i chi gael y sgwrs hon gyda nhw, gan gynnwys p'un ai ydynt yn gweithio'n uwch na chi neu oddi tanoch chi.
88. Os yw eich cadarnhäwr yn nyrs neu'n fydwraig, gall eich trafodaeth adlewyrchol fod yn rhan o'r drafodaeth gadarnhau. Os nad yw eich cadarnhäwr yn nyrs neu'n fydwraig, bydd angen i chi gael trafodaeth adlewyrchol gyda nyrs neu fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC cyn i chi gael eich trafodaeth gadarnhau gyda'ch cadarnhäwr.

89. Os ydych yn gweithio mewn lleoliad gydag ychydig neu ddim nyrsys neu fydwragedd, gallwch fynd at gyfoedion sydd wedi cofrestru gyda'r NMC o'ch rhwydwaith broffesiynol neu rwydwaith arbenigol ehangach er mwyn cael eich trafodaeth adlewyrchol.
90. Disgwylir i'r drafodaeth fod yn sgwrs wyneb yn wyneb mewn amgylchedd priodol. Os na allwch gael trafodaeth wyneb yn wyneb am ryw reswm, yna gallwch drefnu cynhadledd fideo.
91. Yn ystod y drafodaeth ni ddylech drafod eich cleifion, defnyddwyr gwasanaeth na'ch cydweithwyr mewn ffordd y gallai eu gwneud yn hysbys oni bai eu bod wedi cytuno ar hynny. Am ragor o wybodaeth ar drafodaethau adlewyrchol gweler ein taflen arweiniad ar **revalidation**. [nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information](https://nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information).

## Sut i gofnodi eich trafodaeth adlewyrchol

92. Rydym wedi darparu ffurflen NMC y mae'n rhaid i chi ei defnyddio i gofnodi eich trafodaeth. Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr fod y nyrs neu'r fydwraig y byddwch yn cynnal eich trafodaethau adlewyrchol â nhw yn llofnodi'r ffurflen ac yn cofnodi ei henw, pin NMC, e-bost, cyfeiriad proffesiynol gan gynnwys cod post, rhif cyswllt a dyddiad y drafodaeth a chrynodeb o'r drafodaeth<sup>15</sup>. Dylech gadw'r ffurflen wedi'i llenwi a'i harwyddo.
93. Mae'n rhaid sicrhau nad yw rhan crynodeb y ffurflen yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai wneud unigolyn yn hysbys, p'un ai a yw'r unigolyn yn fyw neu wedi marw. Mae'r adran ar wybodaeth na ellir ei hadnabod ar dudalennau 14-16 yn darparu arweiniad ar sut i wneud yn siwr nad yw'r nodiadau'n cynnwys unrhyw wybodaeth a allai wneud unigolyn yn hysbys.

## Yr hyn yr ydych angen ei ddweud wrthym yn eich cais arlein

94. Mae angen i chi ddatgan eich bod wedi cael trafodaeth adlewyrchol gyda nyrs neu fydwraig arall sydd wedi cofrestru gyda'r NMC.
95. Hefyd, byddwch angen enw, pin NMC, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad proffesiynol gan gynnwys cod post y nyrs neu'r fydwraig y cawsoch y drafodaeth a nhw, yn ogystal â dyddiad y drafodaeth adlewyrchol.

# IECHYD A CHYMERIAD

## Y gofynion

96. Mae'n rhaid i chi ddarparu datganiad iechyd a chymeriad.<sup>16</sup>
97. Mae'n rhaid i chi ddatgan os ydych wedi eich cael yn euog o unrhyw drosedd neu wedi cael rhybudd ffurfiol.<sup>17</sup>
98. Bydd gofyn i chi ddatgan os ydych wedi bod yn destun unrhyw benderfyniad andwyol fod eich ffitrwydd i weithio wedi'i amharu gan gorff rheoleiddio neu broffesiynol (gan gynnwys y rheiny sy'n gyfrifol am reoleiddio neu drwyddedu proffesiwn iechyd a gofal cymdeithasol).<sup>18</sup>



## Diben y gofynion hyn

99. Bydd y gofynion hyn yn helpu i fodloni'r Cofrestrydd fod y nyrs neu'r fydwraig yn gallu gweithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

## Sut i fodloni'r gofynion

100. Bydd angen i chi gwblhau'r datganiadau hyn fel rhan o'ch cais ail-ddilysu.
101. Cyfeiriwch at ein harweiniad iechyd a chymeriad ar gyfer nyrsys a bydwagedd ar [www.nmc.org.uk/cautions-convictions](http://www.nmc.org.uk/cautions-convictions) wrth wneud y datganiadau hyn, lle mae gwybodaeth hefyd am ddatgan cyhuddiadau, rhybuddion neu gollfarnau'r heddlu.
102. Mae eich cymeriad yn bwysig ac yn ganolog i'r Cod oherwydd mae'n rhaid i nyrsys a bydwagedd fod yn onest ac yn ddibynadwy. Mae eich cymeriad yn seiliedig ar eich ymddygiad a'ch agwedd. Mae'n rhaid i chi ddatgan os ydych wedi eich cael yn euog o unrhyw drosedd neu wedi derbyn rhybudd ffurfiol.<sup>19</sup> Yn unol â'r Cod, disgwylir i chi ddatgan unrhyw rybuddion neu gollfarnau i'r NMC yn syth, nid yn unig wrth ail-ddilysu.
103. Bydd gofyn i chi hefyd ddatgan os ydych wedi cael collfarn am drosedd neu os ydych wedi bod yn destun unrhyw benderfyniad gan gorff rheoleiddio neu gorff proffesiynol (gan gynnwys y rheiny sy'n gyfrifol am reoleiddio neu drwyddedu proffesiwn iechyd neu ofal cymdeithasol) nes bod eich ffitrwydd i weithio wedi'i amharu.<sup>20</sup>
104. Mae rhybudd neu gollfarn yn cynnwys rhybudd neu gollfarn yr ydych wedi'i dderbyn yn y DU am drosedd, yn ogystal â cholffarn a dderbyniwyd yn unrhyw le arall am dramgwydd a fyddai'n drosedd pe byddai wedi'i chyflawni yng Nghymru neu yn Lloegr. Ni ddylech roi gwybod i'r NMC am droseddau gyrru lle derbyniwyd cosb benodol (oni bai ei fod wedi arwain at golli eich trwydded) neu droseddau sydd wedi'u hystyried gan yr NMC eisoes. Gweler in gwefan am wybodaeth bellach ar rybuddion a cholffarnau sydd wedi'u gwrachod ([www.nmc.org.uk/cautions-convictions](http://www.nmc.org.uk/cautions-convictions)).
105. Disgwylir i chi fod mewn cyflwr iechyd sydd yn sicrhau eich bod yn gallu gweithio yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth, yn dilyn unrhyw addasiadau rhesymol a wnaed gan eich cyflogwr.
106. Nid yw hyn yn golygu fod rhaid cael absenoldeb llwyr o ran anabled neu gyflwr iechyd. Mae nifer o bobl gydag anabledau a chyflyrau iechyd yn gallu gweithio'n effeithiol gyda neu heb addasiadau i gefnogi eu gwaith.
107. Mae fyny i chi benderfynu p'un a yw eich iechyd yn eich caniatáu i weithio yn ddiogel ac yn effeithiol. Os ydych chi'n fodlon gyda'ch penderfyniad yna nid oes angen i chi roi gwybodaeth bellach i ni oni bai am eich datganiad (gweler isod).

## Sut i gofnodi datganiadau iechyd a chymeriad

108. Os yw eich iechyd a'ch cymeriad yn ddigon da i'ch galluogi i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol yn unol â'r Cod, ac nad oes gennych unrhyw newidiadau, rhybuddion, collfarnau neu benderfyniadau i'w datgan, nid oes angen i chi gadw unrhyw wybodaeth fel rhan o'r gofyniad hwn, ac nid oes angen i'ch cadarnhâwr wirio eich bod wedi bodloni'r gofyniad hwn.
109. Os ydych yn datgan unrhyw gyhuddiadau, rhybuddion, collfarnau neu benderfyniadau bydd angen i chi gadw tystiolaeth o'r rhain i roi mwya o wybodaeth i ni. Nid oes angen i chi hysbysu eich cadarnhâwr o unrhyw ddatganiad oherwydd byddwn yn asesu'r datganiadau hyn ein hunain.



Mae Paragraff 23.2 y Cod yn nodi fod yn rhaid i chi roi gwybod i ni ac unrhyw gyflogwyr yr ydych yn gweithio iddyn nhw ar y cyfle cyntaf rhesymol am unrhyw rybudd neu gollfarn yn eich erbyn, neu os ydych wedi derbyn rhyddhad amodol mewn perthynas â throstedd, neu eich bod wedi eich cael yn euog (oni bai am rybudd neu gollfarn wedi'u gwarchod)

## Yr hyn yr ydych angen ei ddweud wrthym yn eich cais arlein

110. Mae angen i chi ddatgan fod eich iechyd a'ch cymeriad yn ddigon da i'ch galluogi i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol yn unol â'r Cod.
111. Gofynnir i chi ddatgan os ydych wedi derbyn cyhuddiad, rhybudd neu gollfarn gan yr heddlu, oni bai am rybudd neu gollfarn wedi'u gwarchod, neu benderfyniad andwyol gan gorff proffesiynol neu gorff rheoleiddio.

## TREFNIAD DIGOLLEDU

## PROFFESIYNOL

### Y gofyniad

112. Mae'n rhaid i chi ddatgan fod gennych, neu y bydd gennych pan fyddwch yn gweithio, sicrwydd o dan drefniad digolledu.<sup>22</sup>

### Diben y gofyniad h

113. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i chi gael trefniad digolledu priodol ar waith er mwyn gweithio a darparu gofal. Er nad oes angen i chi ddal y trefniad, eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siwr fod sicrwydd priodol ar waith.

### Sut i fodloni'r gofyniad

114. Bydd angen i chi gwblhau'r datganiad hwn fel rhan o'r broses ail-ddilysu.
115. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn darparu sicrwydd digolledu priodol ar gyfer eu gweithwyr. Os ydych chi'n cael eich cyflogi gwiriwch gyda'ch cyflogwr. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan Gweithwyr y GIG ([www.nhsemployers.org/your-workforce/retain-and-improve/standards-and-assurance/professional-regulation/professional-indemnity-cover/professional-indemnity-cover-qas](http://www.nhsemployers.org/your-workforce/retain-and-improve/standards-and-assurance/professional-regulation/professional-indemnity-cover/professional-indemnity-cover-qas)).

116. Dylech gyfeirio at ein gwybodaeth ar drefniadau digolledu proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwagedd wrth wneud y datganiad hwn. Mae'r ddogfen hon yn diffinio 'sicrwydd priodol' ac yn nodi gwybodaeth ar gyfer y rheiny sy'n cael eu cyflogi, yn hunangyflogedig neu'n ymgymryd â gwaith mewn rolau cyflogedig a hunangyflogedig. Mae hefyd yn nodi gwybodaeth ar gyfer y sawl sydd mewn addysg, yn gwneud gwaith gwirfoddol, neu'n cael toriad o'u gwaith.
117. Os darganfyddir eich bod yn gweithio fel nyrs neu fydwraig heb drefniad digolledu priodol ar waith, byddwch yn cael eich tynnu oddi ar gofrestr yr NMC ac ni fyddwch yn cael gweithio fel nyrs neu fydwraig.

## **Sut i gofnodi eich trefniad digolledu proffesiynol**

118. Gwneir eich datganiad fel rhan o'ch cais ail-ddilysu.
119. Rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn cadw tystiolaeth fod gennych drefniad priodol ar waith.
120. Os yw eich trefniad yn cael ei ddarparu drwy aelodaeth gyda chorff proffesiynol neu drefniad yswiriant preifat, dylai eich datganiad fod yn seiliedig ar gael trefniad digolledu ar waith sy'n darparu 'sicrwydd priodol' mewn perthynas â chwmpas eich gwaith unigol, fel y nodwyd yn y wybodaeth ar drefniadau digolledu proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwagedd. Noder na fydd angen i chi gyfiawnhau penderfyniadau ar y sicrwydd yr ydych yn ei roi ar waith neu'n dibynnu arno, os ydym yn gofyn i chi wneud hynny.
121. Nid oes angen i'ch cadarnhâwr wirio eich bod wedi bodloni'r gofyniad hwn.

## **Yr hyn yr ydych angen ei ddweud wrthym yn eich cais arlein**

122. Mae angen i chi hysbysu NMC p'un ai a yw eich trefniad digolledu drwy eich cyflogwr, aelodaeth o gorff proffesiynol, neu drefniad yswiriant preifat. Fel arall, gallwn roi gwybod i ni nad ydych yn gweithio ar hyn o bryd ond eich bod yn bwriadu cael sicrwydd priodol ar waith cyn gweithio.
123. Mae gofyn i chi gael yswiriant priodol ar waith ar gyfer eich holl leoliadau gwaith cyfredol. Os ydych chi'n gweithio mewn mwy nag un lleoliad ar hyn o bryd, rhowch wybod i ni'n gyntaf am eich trefniant mewn perthynas â'ch prif leoliad gwaith. Yna, ychwanegwch unrhyw drefniadau eraill sy'n rhoi sylw i'ch holl leoliadau gwaith.
124. Os yw eich trefniad digolledu yn cael ei ddarparu drwy aelodau o gorff proffesiynol neu drefniad yswiriant preifat, gofynnir i chi ddarparu enw'r corff proffesiynol neu'r darparwr.<sup>23</sup>

# CADARNHAU

## Y broses

125. Byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth at ddibenion gwirio'r datganiadau yr ydych wedi eu gwneud yn eich cais.<sup>24</sup>
126. Datganiad fydd hwn yn nodi eich bod wedi arddangos i gadarnhäwr priodol eich bod wedi cydymffurfio a'r gofynion ail-ddilysu. Rydym wedi darparu ffurflen i chi ei defnyddio i gael y wybodaeth hon.
127. Byddwn yn gofyn i chi ddarparu enw, pin NMC neu rif adnabod proffesiynol arall (lle bo'n briodol), e-bost, cyfeiriad proffesiynol a chod post y cadarnhäwr.

## Diben y cadarnhad

128. Mae cadarnhad yn cwmpasu nifer o fanteision ar gyfer nyrsys a bydwragedd. Bydd yn darparu sicrwydd, yn cynyddu cefnogaeth ac ymgysylltiad rhwng nyrsys a bydwragedd a'u cadarnhawyr, ac yn gwneud nyrsys a bydwragedd yn fwy atebol am eu gwaith eu hunain a'u gwelliant. Dylai gefnogi nyrsys a bydwragedd drwy wneud gwerthusiadau'n fwy hygyrch.
129. Dylai natur ryngweithiol y broses gadarnhau leihau arwahanrwydd proffesiynol ac annog diwylliant o rannu, adlewyrchu a gwella.
130. Yn y pen draw, dyluniwyd y broses gadarnhau i gynyddu proffesiynoldeb drwy wneud nyrsys a bydwragedd yn fwy atebol am eu gwaith a'u gwelliant. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn rhoi haen ychwanegol o sicrwydd fod nyrsys a bydwragedd yn cydymffurfio â'r gofynion ail-ddilysu.
131. Nid yw cadarnhau'n ymwneud â beirniadu p'un ai a yw nyrs neu fydwraig yn ffit i weithio, neu asesiad yn erbyn gofynion eu cyflogwr presennol/blaenorol.

## Sut i gael cadarnhad

132. Mae'r broses gadarnhau yn cynnwys cael trafodaeth am eich ail-ddilysu gyda chadarnhäwr priodol. Rydym yn awgrymu eich bod yn cael cadarnhad drwy drafodaeth wyneb yn wyneb neu drwy gynhadledd fideo.
133. Fel rhan o'r drafodaeth honno, byddwch yn arddangos i'r cadarnhäwr eich bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion ail-ddilysu, oni bai am drefniad digolledu Proffesiynol ac iechyd a chymeriad, fel y nodir yn y canllaw hwn.
134. Awgrymir eich bod yn cael cadarnhad yn ystod 12 mis olaf eich cyfnod adnewyddu o dair blynedd er mwyn sicrhau ei fod yn ddiweddar. Os cafwyd cadarnhad yn gynharach, efallai y byddwn yn gofyn i chi egluro pam.
135. Os yw eich cadarnhäwr yn nyrs neu'n fydwraig, gall eich trafodaeth adlewyrchol ffurfio rhan o'r drafodaeth gadarnhau. Os nad yw eich cadarnhäwr yn nyrs neu'n fydwraig, bydd angen i chi gael trafodaeth adlewyrchol gyda nyrs neu fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC cyn eich trafodaeth gadarnhau gyda'ch cadarnhäwr.
136. Rydym wedi darparu mwy o wybodaeth am rol y cadarnhawyr yn y canllawiau a dylech sicrhau fod eich cadarnhäwr wedi darllen y rhain.

## Cadarnhâwr priodol

137. Mae eich rheolwr llinell yn gadarnhâwr priodol, ac rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn cael cadarnhad gan eich rheolwr llinell lle bo hynny'n bosibl. Nid oes yn rhaid i reolwr llinell fod yn nyrs neu'n fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC.
138. Os nad oes gennych reolwr llinell, bydd angen i chi benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu eich cadarnhad. Lle bo'n bosibl rydym yn awgrymu fod eich cadarnhâwr yn nyrs neu'n fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC. Mae'n ddefnyddiol os ydynt wedi gweithio gyda chi neu fod gennych gwmpas tebyg o waith, ond nid yw hyn yn hanfodol.
139. Os nad yw hynny'n bosibl, gallwch geisio cadarnhad gan weithiwr proffesiynol arall mewn gofal iechyd yr ydych yn gweithio a nhw ac sydd wedi'i reoleiddio yn y DU. Er enghraifft, gallech ofyn i feddyg, deintydd neu fferyllydd. Bydd angen i chi gofnodi eu proffesiwn a'u rhif pin neu rif cofrestru proffesiynol ac enw eu rheoleiddiwr proffesiynol.
140. Os nad oes gennych reolwr llinell, mynediad at nyrs neu fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC neu weithiwr proffesiynol gofal iechyd arall, dylech edrych ar ein teclyn cadarnhau ar-lein am arweiniad pellach ynglŷn â phwy all weithredu fel cadarnhâwr yn y sefyllfa hon yn [revalidation.nmc.org.uk/what-you-need-to-do/confirmation](https://revalidation.nmc.org.uk/what-you-need-to-do/confirmation).
141. Os yw eich cadarnhâwr yn nyrs neu'n fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC, mae'n rhaid bod ganddynt gofrestrriad effeithiol. Efallai na fyddwn yn gallu gwirio eich cais os cafodd eich cadarnhad ei ddarparu gan berson oedd yn destun unrhyw fath o waharddiad dros dro, tynnu oddi ar y gofrestr neu wahardd ar adeg gwneud y cadarnhad.

## Cael cadarnhad os ydych yn gweithio dramor yn gyfan gwbl

142. Os ydych yn gweithio dramor yn gyfan gwbl, gallwch geisio cadarnhad gan eich rheolwr llinell yn y lle yr ydych yn gweithio.
143. Os nad oes gennych reolwr llinell, bydd angen i chi benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu eich cadarnhad. Lle bo'n bosibl rydym yn awgrymu fod eich cadarnhâwr yn nyrs neu'n fydwraig sy'n cael ei rheoleiddio yn y lle yr ydych yn gweithio, neu weithiwr proffesiynol gofal iechyd arall sy'n cael ei reoleiddio. Mae ein teclyn cadarnhau ar-lein yn darparu arweiniad pellach o ran pwy all weithredu fel cadarnhâwr yn y sefyllfa hon.

## Cael cadarnhad os oes gennych fwy nag un rheolwr llinell

144. Os oes gennych fwy nag un rheolwr llinell neu eich bod yn ymgymryd â mwy nag un rol, dim ond un cadarnhad sydd angen i chi ei gael. Bydd angen i chi benderfynu pa reolwr llinell sydd yn fwyaf priodol i ddarparu cadarnhad eich bod wedi bodloni gofynion yr ail-ddilysu.
145. Rydym yn awgrymu eich bod yn cael trafodaeth ail-ddilysu ac yn cael cadarnhad gan eich rheolwr llinell lle'r ydych yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith. Gallech ddewis cael trafodaeth ail-ddilysu gyda phob un o'ch rheolwyr llinell, a rhoi allbynnau'r trafodaethau hynny i'r rheolwr llinell yr ydych chi'n teimlo sydd yn fwyaf priodol i fod yn gadarnhâwr i chi.

## Cadarnhau a gwerthusiadau

146. Dyluniwyd y broses ail-ddilysu er mwyn iddo ffurfio rhan o broses werthuso, a lle bo'n bosibl rydym yn awgrymu eich bod yn defnyddio eich gwerthusiad blynyddol i gael eich trafodaeth ail-ddilysu ac i gael cadarnhad.
147. Os yw eich rheolwr llinell yn nyrs neu'n fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC, efallai yr hoffech gael eich trafodaeth adlewyrchol ar yr un pryd â'ch trafodaeth gadarnhau fel rhan o'ch gwerthusiad blynyddol.
148. Fodd bynnag, nid yw'n ofyniad ail-ddilysu eich bod yn cael cadarnhad fel rhan o'ch gwerthusiad.

## Sut i gofnodi cadarnhad

149. Rydym wedi darparu ffurflen NMC y mae'n rhaid i chi ei defnyddio i gofnodi eich cadarnhad. Bydd angen i'ch cadarnhâwr lenwi a llofnodi'r ffurflen hon.
150. Dylech gadw'r ffurflen wedi'i chwblhau a'i llofnodi.

## Yr hyn yr ydych angen ei ddweud wrthym yn eich cais ar-lein

151. Byddwn yn gofyn i chi gyflwyno eich enw, Pin NMC neu rif adnabod proffesiynol arall (lle bo'n briodol), e-bost, cyfeiriad proffesiynol gan gynnwys cod post a rhif cyswllt eich cadarnhau. Os nad eich cadarnhau'r yw eich rheolwr llinell, byddwch hefyd angen rhoi manylion am eu proffesiyn a'u rheoleiddiad.
152. Hefyd byddwn yn gofyn a ydych yn cael gwerthusiad rheolaidd a p'un ai oes gennych rheolwr llinell sydd yn nyrs neu'n fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC fel ein bod yn deall pa lefel o gefnogaeth oedd ar gael i chi wrth gwblhau'r cais ail-ddilysu.

**Y BROSES GWNEUD**

**CAIS**

## Cyn i chi wneud cais

- **Crëwch gyfrif NMC Ar-lein.**

Bydd angen i chi wneud cais drwy NMC Ar-lein. Hefyd gallwch wirio eich dyddiad adnewyddu a dyddiad cais ail-ddilysu ar NMC Ar-lein. Rydym wedi cyhoeddi canllaw cam wrth gam i gofrestru ar gyfer NMC Ar-lein ar [www.nmc.org.uk/registration/nmc-online](http://www.nmc.org.uk/registration/nmc-online).



Unwaith y byddwch wedi creu eich cyfrif ar-lein, byddwch yn derbyn hysbysiadau dilynnol ar e-bost. Ychwanegwch NMC fel anfonwr diogel a gwiriwch eich e-byst yn rheolaidd yn ystod y broses ail-ddilysu.

- **Cadwch eich manylion cyswllt yn gyfoes fel y gallwn eich hysbysu pryd mae disgwyl i chi gyflwyno cais am ail-ddilysiad.**  
Y rheswm mwyaf cyffredin dros fethu a chofrestru (a gweithio'n anghyfreithlon) yw methu â hysbysu'r NMC o'ch manylion cyswllt diweddaraf.
- **Gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod pryd mae disgwyl i chi cyflwyno cais am ail-ddilysiad.**  
Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich cais erbyn y dyddiad yr ydym yn ei nodi. Gallech effeithio ar ein gallu i brosesu cais am ail-ddilysiad os na fyddwch yn cyflwyno eich cais erbyn y dyddiad hwn, a gallai adnewyddu eich cofrestrriad fod mewn perygl o ganlyniad.
- **Gwnewch yn siwr fod gennych yr holl dystiolaeth gefnogol wrth law pan fyddwch yn dechrau gwneud eich cais ar-lein.**
- Cysylltwch â'r NMC mewn da bryd cyn dyddiad cyflwyno eich cais os byddwch angen addasiad rhesymol am ddefnyddion NMC Ar-lein (gweler yr adran Trefniadau cefnogi amgen isod).

## Y cais ar-lein

153. Mae eich cais ar-lein yn agor 60 niwrnod cyn y dyddiad y dylid cyflwyno'r cais am ail-ddilysiad.
154. Yn ystod y cyfnod hwn o 60 niwrnod bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cais drwy NMC Ar-lein a chyfeirio at bob un o'r gofynion.

### Cysylltu â'ch cyflogwr neu unrhyw drydydd parti perthnasol arall

155. Fel rhan o'ch proses gwneud cais efallai y bydd angen i ni gysylltu â'ch cyflogwr neu drydydd parti perthnasol arall a allai wirio'r wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn eich cais<sup>25</sup>.
156. Yn eich cais ar-lein gofynnir i chi ddarparu caniatâd at y diben hwn.

### Gwybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth

157. Fel rhan o'r broses gwneud cais ar-lein gofynnir i chi gyflwyno rhywfaint o wybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro ein gwasanaethau a sicrhau ein bod yn trin pawb mewn ffordd deg a chydadd. Mae'r cwestiynau wedi'u dylunio i gasglu data am ddefnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig gan y gyfraith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
158. Byddwn yn cadw'r wybodaeth o'r holiadur hwn yn gyfrinachol ac yn ei storio'n unol a Deddf Gwarchod Data 1998 a Pholisi Gwarchod Data yr NMC. Drwy gyflwyno'r wybodaeth bersonol sensitif hwn i ni, rydych chi'n rhoi caniatad i ni gasglu a phrosesu eich gwybodaeth bersonol sensitif yn unol â Pholisi Gwarchod Data yr NMC.
159. Mae darparu'r wybodaeth hon yn opsiynol ac ni fydd yn effeithio ar eich cais ail-ddilysu neu adnewyddu cofrestrriad. Pe byddech yn dymuno peidio â datgelu'r wybodaeth hon gallwch ddewis yr opsiwn 'mae'n gwell gen i beidio dweud' ar gyfer unrhyw rai o'r cwestiynau/y cwestiynau i gyd.



Mae manylion am ein Polisi Gwarchod Data wedi'u cynnwys yn ein hysbysiad prei-fatrwydd ar [www.nmc.org.uk/privacy](http://www.nmc.org.uk/privacy).



## Talu eich ffi

160. Yn ogystal â'ch cais ail-ddilysu bydd angen i chi dalu eich ffi cofrestru blynyddol bob blwyddyn er mwyn cadw eich cofrestriad gyda'r NMC. Ni fydd eich cofrestriad yn cael ei adnewyddu nes i ni dderbyn eich taliad.
161. Dylech gyfeirio at ein canllawiau ar dalu eich ffioedd yn [www.nmc.org.uk/registration/staying-on-the-register/paying-your-fee](http://www.nmc.org.uk/registration/staying-on-the-register/paying-your-fee). Mae hwn yn nodi ffyrdd gwahanol y gallwch dalu eich ffi, gan gynnwys drwy ddebyd uniongyrchol a cherdyn debyd neu gredyd, yn ogystal â sut i dalu mewn pedwar rhandaliad chwarterol.
162. Fel talwr trethi cofrestredig yn y DU gallwch hefyd hawlio ad-daliad treth ar ffioedd cofrestru'r NMC. Mae Cyllid a Thollau EM (HMRC) yn caniatáu i unigolion hawlio ad-daliad treth ar danysgrifiadau neu ffioedd sydd yn rhaid eu talu er mwyn gwneud swydd. Mae ffioedd cofrestru a delir i ni yn cael eu yn cynnwys yn y categori hwn. Dylech gyfeirio at ein canllawiau ar sut i hawlio ad-daliad treth ar eich ffi ar [www.nmc.org.uk/registration/staying-on-the-register/tax-relief](http://www.nmc.org.uk/registration/staying-on-the-register/tax-relief).

## Wedi i chi gwblhau eich cais

163. Wedi i chi gwblhau eich cais ar-lein byddwch yn cael yr opsiwn i argraffu copi papur o'ch cais ar gyfer eich cofnodion.
164. Unwaith y bydd eich cais wedi'i brosesu'n llwyddiannus a'ch taliad wedi'i dderbyn byddwn yn anfon e-bost yn cadarnhau fod eich cofrestriad wedi'i adnewyddu.
165. Rydym yn eich cyngori i chwilio ar y gofrestr ar ein gwefan yn [www.nmc.org.uk/registration/search-the-register](http://www.nmc.org.uk/registration/search-the-register) i wirio eich statws.

## Trefniadau cefnogi amgen

166. Rydym yn cydnabod fod rhai nyrsys a bydwagedd yn bwriadu adnewyddu eu cofrestriad gyda'r NMC ond angen trefniadau amgen i'w cefnogi drwy'r broses. Isod rydym wedi nodi'r amgylchiadau lle byddwn yn ystyried cynnig trefniadau amgen. Am ragor o wybodaeth ar y gefnogaeth y gallwn ei darparu a sut i wneud cais am y gefnogaeth hon gweler ein taflen arweiniad ar drefniadau cefnogi amgen yn [revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information](http://revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information).

### Addasiadau rhesymol am ddefnyddio NMC Ar-lein

167. Byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol i nyrsys a bydwagedd a chanddynt anabledd sy'n golygu y gallai defnyddio NMC Ar-lein fod yn anodd iddynt. Os ydych angen o addasiad rhesymol gael ei wneud, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r NMC mewn da bryd cyn y dyddiad y dylid cyflwyno eich cais fel y gallwn ystyried eich cais a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol.

### Trefniadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol

168. Rydym yn cydnabod fod rhai amgylchiadau lle na all nyrsyr a bydwagedd fodloni'r gofynion ail-ddilysu. Mae dau fath o amgylchiadau eithriadol:
  - nid ydych wedi bod yn gweithio am ddigon o amser rhwng Hydref 2015 pan gyhoeddwyd y canllawiau ail-ddilysu a'ch dyddiad gwneud cais am ail-ddilysiad (er enghraifft eich bod wedi bod ar absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb salwch) i fodloni'r gofynion ychwanegol, neu
  - mae nodwedd warchodedig berthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (fel beichiogrwydd a mamolaeth, neu anabledd) yn effeithio ar eich gallu i fodloni un neu fwy o'r gofynion ar un adeg.
169. Os ydych yn gallu sefydlu fod amgylchiadau eithriadol yn gymwys yn eich achos chi, bydd angen i chi fodloni'r gofynion Paratoi sy'n bodoli'n barod o hyd. Mae manylion am y rhain ar dudalennau cofrestru ein gwefan.



## Cais am estyniad i gyflwyno eich cais

170. Fel arfer, ni fyddwn yn ystyried unrhyw gais am estyniadau i gyflwyno cais am ail-ddilysiad. Dylech fod wedi bodloni'r gofynion yn ystod y tair blynedd cyn adnewyddu eich cofrestrriad.
171. Fodd bynnag, os byddwch yn teimlo fod gennych reswm da dros pam na allwch gyflwyno cais am ail-ddilysiad erbyn y diwrnod penodedig, mgallwch wneud cais am estyniad unwaith y bydd eich cais ail-ddilysu yn agor 60 diwrnod cyn y dyddiad cais am ail-ddilysiad.
172. Gallwn ond ganiatau estyniad cyn y dyddiad y bydd eich cofrestrriad yn dod i ben.<sup>26</sup> Rhoddir estyniadau am gyfnod o hyd at chwe wythnos.<sup>27</sup>
173. Wrth roi caniatad am estyniad, byddwn yn ystyried y canlynol:
- p'un ai ydych wedi cysylltu â'r NMC cyn y dyddiad y dylid cyflwyno eich cais am ail-ddilysiad
  - y rheswm pam na fedrwch gyflwyno eich cais am ail-ddilysiad erbyn y dyddiad penodedig
  - p'un ai a fyddwch yn gallu cyflawni'r gofynion ail-ddilysu sy'n ddyledus a chyflwyno eich cais o fewn y cyfnod ychwanegol o amser
  - p'un ai a oes unrhyw bryderon am eich ffitrwydd i weithio, a
  - p'un ai a yw'r ffi cofrestru wedi cael ei dalu neu a fydd yn cael ei dalu erbyn y dyddiad gofynnol.
174. Noder os byddwn yn caniatáu estyniad i ddyddiad cau cyflwyno eich cais, mae'n rhaid i chi dalu eich ffi cofrestru erbyn y dyddiad cais ail-ddilysu gwreiddiol.

# GWIRIO EICH CAIS

175. Bob blwyddyn byddwn yn dewis sampl o nyrsys a bydwragedd i ddarparu gwybodaeth bellach neu dystiolaeth i wirio eu cais.<sup>28</sup> Nid yw cais o'r fath o angenrheidi yn golygu fod unrhyw bryderon am eich cais a gallwch barhau i weithio tra ein bod yn ni'n adolygu'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu.
176. Lle mae'n bosibl byddwn yn eich hysbysu yn syth ar ôl i chi gyflwyno eich cais a thalu os ydych wedi eich dewis i ddarparu gwybodaeth bellach. Os nad yw hyn yn bosibl byddwn yn cysylltu â chi ar e-bost o fewn 24 awr i gyflwyno eich cais am ail-ddilysiad a thalu. Dylech wirio eich e-bost yn ystod yr amser hwn.
177. Os byddwch yn cael eich dewis i ddarparu gwybodaeth bellach, bydd angen i chi lenwi ffurflen ar-lein lle gofynnir i chi ddarparu'r wybodaeth bellach. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth bellach. Byddwn yn gofyn i chi ddarparu hwn o fewn 21 diwrnod o dderbyn eich hysbysiad eich bod wedi cael ei dewis i'ch dilysu o fewn amser rhesymol. Noder er na fydd eich cofrestrriad yn methu yn ystod y broses wirio, ni fydd eich cofrestrriad yn cael ei adnewyddu nes i'r broses wirio ddod i ben.

178. Mae'r tabl drosodd yn nodi'r wybodaeth y bydd angen i chi ddarparu i ni os byddwch yn cael eich dewis i ddarparu gwybodaeth bellach. Dylai'r wybodaeth hon fod gennych yn barod felly ni ddylai fod angen i chi chwilio am wybodaeth ychwanegol.
179. Byddwn yn cysylltu â'r cadarnhaur i wneud cais am wybodaeth bellach. Dylid sicrhau fod eich cadarnhaur yn ymwybodol y byddai peidio ag ymateb i'n cais yn debyg o roi eich cais am ail-ddilysiad mewn rig. Efallai y byddwn yn cysylltu â'ch cyflogwr a'ch partner am y drafodaeth adlewyrchol hefyd.
180. Os byddwn yn canfod nad ydych wedi cydymffurfio a'r holl ofynion ail-ddilysu, neu wedi cyflwyno gwybodaeth dwyllodrus, gallai eich cofrestriad fod mewn perygl. Noder os nad ydych chi'n ymgysylltu'n llawn yn y broses ddilysu gallai eich cofrestriad ddod i ben a byddai'n rhaid i chi wneud cais am ail-fynediad.
181. Bydd y broses wirio yn cael ei chyflawni o fewn tri mis i'ch dyddiad adnewyddu.

## Gwybodaeth Ddilysu

### Oriau gweithio

Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol, gan ddechrau gyda'ch gwaith mwyaf diweddar nes eich bod yn arddangos y nifer lleiaf o oriau gwaith gofynnol:

- dyddiadau'r gwaith;
- y nifer o oriau a gyflawnwyd;
- enw, cyfeiriad a chod post y sefydliadau;
- cwmpas y gwaith (gweler y blwch awgrym ar dudalen 20);
- disgrifiad o'r gwaith a gyflawnwyd; a
- os ydych yn gweithio dramor, p'un ai a ydych wedi cofrestru gyda'r corf rheoleiddio perthnasol. Efallai y byddwn yn cysylltu â'ch cyflogwr, ac efallai y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth bellach o oriau gweithio.

Os ydych yn defnyddio cwrs dychwelyd i'r gwaith wedi'i gwblhau ar gyfer eich gofynion oriau, neu eich bod wedi cael eich symud i ran arall o'r gofrestr ers i chi adnewyddu eich cofrestriad ddiwethaf neu ers i chi ymuno â'r gofrestr, edrychwch ar ein taflen arweiniad ar dychwelyd i weithio a chofrestriad newydd ar [www.revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information](http://www.revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information) am ragor o wybodaeth.

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- y dull DPP;
- disgrifiad cryno o'r testun a sut y mae'n berthnasol i'ch gwaith;
- dyddiadau pan gynhaliwyd y gweithgaredd DPP;
- y nifer o oriau ac oriau cyfranogol; a
- nodi'r rhan o'r Cod sydd yn fwyaf perthnasol i'r DPP.

Efallai y gofynnir i chi hefyd ddarparu tystiolaeth o'r gweithgaredd DPP.

### Trafodaeth adlewyrchol

Ni fydd angen i chi lwytho copi o'r ffurflen drafodaeth adlewyrchol. Efallai y byddwn yn cysylltu â'ch partner o ran y drafodaeth.

## Trefniad digolledu proffesiynol

Mae'n ofynnol i chi gael yswiriant priodol ar waith sy'n rhoi sylw i'ch holl leoliadau gwaith. Os yw eich trefniad yn cael ei ddarparu drwy aelodaeth o gorff proffesiynol neu drefniad yswiriant preifat gofynnir i chi gadarnhau a) eich bod wedi darllen a deal ein gwybodaeth ar drefniadau digolledu proffesiynol i nyrsys a bydwagedd b) fod gennych drefniad digolledu ar waith sy'n darparu "sicrwydd priodol" mewn perthynas â chwmpas eich gwaith unigol, fel sy'n cael ei egluro yn y wybodaeth ar drefniadau digolledu proffesiynol i nyrsys a bydwagedd a c) eich bod yn deall y bydd yn rhaid i chi gyfiawnhau penderfyniadau ar y sicrwydd sydd gennych ar waith, os gofynnir i chi wneud hynny. Os ydych yn gweithio ar hyn o bryd mewn mwy nag un lleoliad dywedwch wrthym yn gyntaf am eich trefniad mewn perthynas â'r prif lleoliad gwaith, yna dilyn gyda threfniadau eraill sy'n rhoi sylw i'ch holl leoliadau gwaith.

## Cadarnhad

Ni fydd angen i chi lwytho copi wedi'i arwyddo o'r ffurflen gadarnhau. Byddwn yn cysylltu â'ch cadarnhauwr gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd i ni yn eich cais gwreiddiol. Dylid sicrhau fod eich cadarnhauwr yn ymwybodol y gallai peidio ag ymateb i'n cais i wirio roi eich cais am ail-ddilysiad mewn perygl.

# AIL-DDILYSU A PHROSESAU

# FFITRIFYDD I WEITHIO YR NMC

182. Os yw cyflogwr, nyrs neu fydwraig, neu unrhyw unigolyn arall yn dod yn ymwybodol am bryder difrifol am ffitrwydd nyrs neu fydwraig arall i weithio dylid codi hyn ar frys drwy ein gweithdrefnau ffitrwydd i weithio. Mae gan yr holl nyrsys a bydwagedd ddyletswydd proffesiynol i godi pryderon am waith nyrs neu fydwrwai arall naill ai drwy eu cyflogwr neu'n uniongyrchol gyda ni. Ni ddylid aros nes bod adnewyddu neu ail-ddilysu'r nyrs neu fydwraig ar droed i godi pryder felly am ffitrwydd i weithio.
183. Nid yw ail-ddilysu yn creu ffordd newydd o godi'r math hwn o bryder am ffitrwydd i weithio am nyrs neu fydwraig, ac nid yw cam cadarnhau'r ail-ddilysu'n cynnwys dod i benderfyniad ar p'un ai a yw nyrs neu fydwraig yn ffit i weithio.
184. Os ydych yn destun ymchwiliad NMC, amod(au) gorchymyn gwaith neu rybudd, byddwch yn gallu gwneud cais i adnewyddu eich cofrestriad cyhyd a'ch bod yn cyflawni'r holl ofynion ar gyfer adnewyddu. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fod yn destun prosesau ffitrwydd i weithio NMC a chanlyniad y prosesau hyn.
185. Os ydych wedi cael eich tynnu oddi ar y gofrestr, ni allwch ail-ddilysu am nad ydych ar y gofrestr bellach. Bydd angen i chi wneud cais i gael eich adfer ar y gofrestr.



**Am ragor o wybodaeth ar adferiad gweler**

**[www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/information-under-investigation/  
restoration](http://www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/information-under-investigation/restoration)**

186. Os ydych wedi eich gwahardd o'r gofrestr, ni allwch ail-ddilysu yn ystod eich gwaharddiad. Yn dilyn diwedd eich gwaharddiad, o yw eich cofrestriad yn effeithiol bydd angen i chi gydymffurfio a'r gofynion ail-ddilysu ar yr amser pan fydd eich cofrestriad angen ei adnewyddu. Os nad yw eich cofrestriad yn effeithiol yn dilyn diwedd eich gwaharddiad, bydd angen i chi ddilyn y broses ail-dderbyn.

## CANSLO EICH

## COFRESTRIAD

187. Efallai nad ydych am gadw un o'ch cofrestriadau gyda ni, neu eich holl gofrestriadau gyda ni.
- Er enghraifft, efallai y byddwch yn dymuno canslo eich holl gofrestriadau gyda ni os ydych wedi symud dramor, wedi ymddeol o'ch gwaith neu wedi newid gyrfa.
  - Fel arall, efallai yr hoffech ganslo un o'ch cofrestriadau gyda ni os hoffech barhau i weithio yn un ond nid y llall. Er enghraifft, os ydych yn nyrs ac yn fydwraig gofrestredig, ond yn dymuno parhau i weithio fel bydwraig yn unig efallai yr hoffech ganslo eich cofrestriad nyrsio.



Sylwer os ydych yn derbyn tâl fel nyrs neu fydwraig tra eich bod ar absenoldeb mamolaeth, salwch neu wyliau blynyddol efallai y bydd angen i chi gadw eich cofrestriad trwy gydol y cyfnod hwn.

188. Os ydych yn dymuno canslo ar adeg eich cais am ail-ddilysu, gallwch wneud hyn ar-lein drwy'r broses gwneud cais am ail-ddilysu.
189. Os ydych yn dymuno canslo eich cofrestriad pan nad yw'n amser i chi ail-ddilysu, mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflen cais i orffen eich cofrestriad. .
190. Bydd angen i chi ddarparu eich Pin NMC, enw llawn, cyfeiriad cyswllt, y rheswm dros ganslo a datganiad yn nodi nad ydych yn ymwybodol o unrhyw fater a allai achos i bryder gael ei godi, neu sydd wedi achosi i bryder gael ei godi yn ymwneud a honiad ffitrwydd i weithio yn eich erbyn.



Mae gwybodaeth am ganslo eich cofrestriad gyda'r NMC ar gael ar ein gwefan ar [www.nmc.org.uk/registration/leaving-the-register/cancelling-registration/](http://www.nmc.org.uk/registration/leaving-the-register/cancelling-registration/)

191. Ni fyddwch yn gallu gweithio na chyflwyno eich hun fel nyrs neu fydwraig gofrestredig yn y DU pe byddwch yn canslo eich cofrestriad gyda'r NMC. Mae'n drosedd i gyflwyno eich hun ar gam fel bod ar y gofrestr, neu ar ran ohono, neu i ddefnyddio teitl nad oes gennych hawl iddo.<sup>29</sup>
192. IOs ydych yn dewis i ganslo eich cofrestriad, a'ch bod yn dymuno mynd yn ôl i weithio fel nyrs/bydwraig yn y DU, dylech gyfeirio at ein canllaw ar ail-dderbyn ar y gofrestr ar [www.nmc.org.uk/registration/returning-to-the-register](http://www.nmc.org.uk/registration/returning-to-the-register) Os ydych yn gwneud cais i gael eich ail-dderbyn o fewn chwe mis o ddod oddi ar y rhestr oherwydd i chi fethu ag ail-ddilysu, bydd yn rhaid i chi fodloni'r gofynion ail-ddilysu yn ogystal â'r gofynion ail-dderbyn arfero, oni bai eich bod yn gallu arddangos fod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

193. Os byddwch yn gwneud cais am ail-fynediad o fewn chwe mis i golli eich cofrestriad pan oedd eich ail-ddilysiad yn ddyledus, bydd rhaid i chi fodloni rhai o'r gofynion ail-ddilysu yn ogystal â'r gofynion ail-fynediad, oni bai eich bod yn gallu dangos fod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol. Y gofynion ail-ddilysu ychwanegol hyn yw:
- Mae'n rhaid i 20 o'ch 35 awr o DPP fod yn gyfranogol
  - Pum darn o adborth yn seiliedig ar waith
  - Pum cofnod myfyriol ysgrifenedig
  - Trafodaeth fyfyriol
194. Am wybodaeth bellach ar y gofynion ail-fynediad ail-ddilysu a'r broses gweler **[www.nmc.org.uk/registration/returning-to-the-register/readmission-register/details-of-the-requirements](http://www.nmc.org.uk/registration/returning-to-the-register/readmission-register/details-of-the-requirements)**.

## Methu ag ail-ddilysu ac apeliadau

195. Os byddwch yn methu a chyflwyno eich cais am ail-ddilysiad cyn diwedd y cyfnod adnewyddu o dair blynedd, bydd eich cofrestriad yn dod i ben (gorffen yn awtomatig). Os ydych am ddod yn ôl ar y gofrestr, bydd angen i chi wneud cais i gael eich ail-dderbyn.
196. Os byddwch yn cyflwyno cais am ail-ddilysiad, ond yn methu a bodloni'r gofynion ail-ddilysu a bod eich cais i adnewyddu'n cael ei wrthod o ganlyniad i hyn, gallwch apelio'r penderfyniad o fewn 28 diwrnod o ddyddiad y llythyr penderfyniad.<sup>30</sup>
197. Dylid gwneud hysbysiad apelio yn ysgrifenedig a dylai gynnwys:
- Eich enw, cyfeiriad a Pin NMC;
  - Y dyddiad, natur a manylion perthnasol eraill y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn;
  - datganiad cryno o sail yr apêl;
  - enw a chyfeiriad eich cynrychiolwr (os oes gennych) a datganiad yn nodi a ddylai'r Cyngor gyfathrebu gyda'r cynrychiolwr hwnnw ynglŷn â'r apêl yn hytrach na gyda chi;
  - datganiad mai hysbysiad apelio yw'r hysbysiad;
  - llofnod gennych neu ar eich rhan, a
  - copi o ddogfennau yr ydych yn cynnig dibynnu arnynt at ddibenion eich apêl.<sup>31</sup>

Dylid anfon hysbysiad apelio i **[ragsupport@nmc-uk.org](mailto:ragsupport@nmc-uk.org)**.

198. Fodd bynnag, os gwnaethoch fethu a thalu'r ffi cofrestru neu i gyflwyno ffurflen gais o gwbl o fewn yr amser penodedig, ac o ganlyniad mae eich cais i adnewyddu eich cofrestriad wedi methu, nid oes gennych yr hawl i apelio.<sup>32</sup>
199. Os nad ydych yn adnewyddu eich cofrestriad ac yn dod oddi ar y gofrestr, nid ydych bellach yn nyrs neu fydwraig gofrestredig. Mae'n drosedd i gynrychioli eich hun ar gam fel bod ar y gofrestr, neu ran ohoni, neu i ddefnyddio teitl nad oes gennych hawl iddo.<sup>33</sup> Os ydych yn dod oddi ar y gofrestr mae angen i chi fod yn ofalus nad ydych yn camarwain pobl i feddwl eich bod ar y gofrestr.

# FFURFLEN ADRODDIAD

## ADLEWYRCHOL

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon i gofnodi pum adroddiad adlewyrchol ysgrifenedig ar eich DPP a/ neu adborth yn seiliedig ar waith a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eich gwaith a sut mae hyn yn berthnasol i'r Cod. Dylech lenwi tudalen ar gyfer pob un o'ch adroddiadau adlewyrchol, gan sicrhau nad ydych yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai gwneud claf, defnyddiwr gwasanaeth neu gydweithiwr yn hysbys. Dylech gyfeirio at eich canllawiau ar gadw anhysbysrwydd yn y daflen arweiniad ar wybodaeth na ellir ei hadnabod yn yn *Sut i ail-ddilysu gyda'r NMC*.

### Adroddiad adlewyrchol:

**Beth oedd natur y gweithgaredd DPP a/neu'r adborth yn seiliedig ar waith a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eich gwaith?**

**Beth wnaethoch chi ei ddysgu o'r gweithgaredd DPP a/neu adborth a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eich gwaith?**

**Sut wnaethoch newid neu wella eich gwaith o ganlyniad i hyn?**

**Sut mae hyn yn berthnasol i'r Cod?**

**Dewiswch un neu fwy o'r themâu: Blaenoriaethu pobl- Gweithio'n effeithiol- Cadw diogelwch- Hyrwyddo proffesiynoldeb ac ymddiriedolaeth**

# FFURFLEN Y DRAFODAETH

## ADLEWYRCHOL

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon i gofnodi trafodaeth adlewyrchol gyda nyrs neu fydwraig arall sydd wedi cofrestru gyda'r NMC am eich pum adroddiad adlewyrchol ysgrifenedig. Yn ystod eich trafodaeth ni ddylech drafod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth na chydweithwyr mewn modd a allai eu gwneud yn hysbys oni bai eu bod wedi cytuno i hynny, ac yn yr adran crynodeb y drafodaeth isod dylech wneud yn siŵr nad ydych yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai wneud claf penodol neu ddefnyddiwr gwasanaeth yn hysbys. Dylech gyfeirio at yr adran ar wybodaeth na ellir ei hadnabod yn *Sut i ail-ddilysu gyda'r NMC* am ragor o wybodaeth.

### I'w gwblhau gan y nyrs neu'r fydwraig

Enw:	
Pin NMC:	

### I'w gwblhau gan y nyrs neu'r fydwraig y cawsoch y drafodaeth â nhw:

Enw:	
Pin NMC:	
Cyfeiriad e-bost:	
Dyddiad y drafodaeth:	
Y nifer o adlewyrchiadau a drafodwyd:	
Crynodeb fer o'r drafodaeth:	
Rwyf wedi trafod y nifer o adroddiadau adlewyrchol a restrwyd uchod gyda'r nyrs neu fydwraig a enwir fel rhan o drafodaeth adlewyrchol.  Rwy'n cytuno i'r NMC gysylltu â mi i ddarparu gwybodaeth bellach os yw'n angenrheidiol at ddibenion gwirio.	Llofnod:
	Dyddiad:

# FFURFLEN GADARNHAU

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon i gofnodi eich cadarnhad. Oherwydd hyn, ni ellir ei haddasu.

I'w gwblhau gan y nyrs neu'r fydwraig:

Enw:	
Pin NMC:	
Dyddiad adnewyddu cofnod diwethaf neu ymuno â'r gofrestr :	

Rwyf wedi derbyn cadarnhad o (dewiswch yn berthnasol):

- Rheolwr llinell sydd hefyd yn nyrs neu fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC
- Rheolwr llinell nad yw'n nyrs neu fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC
- Nyrs neu fydwraig arall sydd wedi cofrestru gyda'r NMC
- Gofalwr iechyd proffesiynol a reoleiddir
- Gofalwr iechyd proffesiynol a reoleiddir dramor
- Aelodau proffesiynol eraill yn unol â theclyn penderfyniad ategu ar-lein ar [www.nmc.org.uk/confirmation](http://www.nmc.org.uk/confirmation)

I'w gwblhau gan yr cadarnhwr:

Enw:	
Teitl swydd:	
Cyfeiriad e-bost:	
Cyfeiriad yn cynnwys cod post:	
Dyddiad y drafodaeth cadarnhau:	



Os ydych yn nyrs neu fydwraig sydd wedi cofrestru gyda'r NMC, rhowch:

Pin NMC:

Os ydych yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol a reolir rhowch:

Proffesiwn:

Rhif cofrestru ar gyfer corff rheoleiddio:

Os ydych yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol a reolir dramor, rhowch:

Gwlad:

Proffesiwn:

Rhif cofrestru ar gyfer corff rheoleiddio:

Os ydych yn weithiwr proffesiynol arall, rhowch:

Proffesiwn:

Rhif cofrestru ar gyfer corff rheoleiddio:

## Rhestr wirio cadarnhau gofynion ail-ddilysu

### Oriau gwaith

- Eich bod wedi gweld tystiolaeth ysgrifenedig sy'n eich bodloni fod y nyrs neu'r fydwraig wedi gweithio'r nifer o oriau sy'n ofynnol ar gyfer eu cofrestriad.

### Datblygiad proffesiynol parhaus

- Eich bod wedi gweld tystiolaeth ysgrifenedig sy'n eich bodloni fod y nyrs neu'r fydwraig wedi cyflawni 35 awr o DPP sy'n berthnasol i'w ymarfer fel nyrs neu fydwraig.
- Eich bod wedi gweld tystiolaeth bod o leiaf 20 o'r 35 awr yn cynnwys dysgu cyfranogol sy'n berthnasol i'w gwaith fel nyrs neu fydwraig.
- Eich bod wedi gweld cofnodion cywir o'r DPP a gyflawnwyd.

## Adborth yn gysylltiedig â gwaith

Yr ydych yn fodlon bod y nyrs neu'r fydwraig wedi cael pum darn o adborth sy'n gysylltiedig â gwaith.

## Adroddiadau myfyriol ysgrifenedig

Rydych wedi gweld pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig gan y nyrs neu'r fydwraig DPP a/neu adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eu gwaith a sut mae hyn yn ymwneud â'r Cod, a gofnodir ar y ffurflen NMC.

## Trafodaeth fyfyriol

Rydych wedi gweld ffurflen wedi'i chwblhau a'i llofnodi gan ddangos bod y nyrs neu'r fydwraig wedi trafod eu cyfrifol adlewyrchol gyda nyrs neu fydwraig arall sydd wedi cofrestru gyda'r NMC (neu chi fel cadarnhawr sydd wedi cofrestru gyda'r NMC sydd wedi eu trafod gyda'r nyrs neu fydwraig eich hun).

**Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen *Gwybodaeth i gadarnhâwr*, a bod y nyrs sydd wedi cofrestru gyda'r NMC a enwir uchod wedi dangos i mi eu bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion ail-ddilysu NMC a restrir uchod yn ystod y tair blynedd ers eu cofrestriad diwethaf neu eu bod wedi ymuno â'r gofrestr, fel y nodir yn '*Gwybodaeth i gadarnhâwr Gwybodaeth i gadarnhâwr*'.**

Yr wyf yn cytuno i'r NMC gysylltu â mi i gael rhagor o wybodaeth os oes angen at ddibenion dilysu. Yr wyf yn ymwybodol os nad wyf yn ymateb i gais am wybodaeth gwirio byddaf yn rhoi cais ail-ddilysu'r nyrs neu fydwraig mewn perygl.

Llofnod:

Dyddiad:

# TEMPLLED LOG ORIAU GWAITH

## Canllaw i gwblhau log oriau gwaith

I gofnodi eich oriau gwaith fel nyrs gofrestredig a/neu fydwrraig, llenwch dudalen ar gyfer pob un o'ch cyfnodau gwaith. Rhowch eich gwaith mwyaf diweddar yn gyntaf ac yna unrhyw waith arall nes i chi gyrraedd 450 awr. Nid oes o reidrydd angen i chi gofnodi oriau gwaith unigol. Gallwch ddisgrifio eich oriau gwaith o ran diwrnodau gwaith safonol neu wythnosau. Er enghraifft, os ydych yn gweithio llawn amser, dim ond un cofnod o oriau fydd angen os gwelwch yn dda. Os ydych chi wedi gweithio mewn ystod o leoliadau yna gosodwch y rhain allan yn unigol. Efallai y bydd angen i chi argraffu tudalennau ychwanegol i ychwanegu mwy o gyfnodau gwaith. Os ydych yn nyrs ac yn fydwraig bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth i gwmpasu 450 awr o ymarfer ar gyfer pob un o'r cofrestrïadau hyn.

### Eich lleoliad gwaith

- Gwasanaeth ambiwilians
- Sector cartrefi gofal
- Arolygiaeth Gofal
- Leoliad cymunedol (gan gynnwys nyrsio cymunedol a nyrsio seiciatrïg cymunedol)
- Ymgynghoriaeth
- Sector comestig neu esthetig
- Corff llywodraethu neu rôl arweinyddiaeth
- Practis meddyg teulu neu ofal sylfaenol arall
- Ysbyty neu ofal eilaidd arall
- Arolygiaeth neu reoleiddiwr
- Yswiriant/cyfreithiol
- Milwrol
- Iechyd galwedigaethol
- Yr heddlu

### Eich ffdliad polisi

- Carchar
- Leoliad domestig preifat
- Sefydliad Gofal cyhoeddus
- Ysgol
- Arbenigwr neu ofal trydyddol arall gan gynnwys hobbis
- Cyngor ffrön neu ar y we
- Undeb llafur neu gorff proffesiynol
- Prifysgol neu gyfleuster ymchwil arall
- Sector gofal neu elusennol
- Arall

### Cwmpas gwaith

- Cyfarwyddwr clinigol neu reolwr gofal

### Comisiynu

- Addysg
- Polisi
- Sicrhau ansawdd neu arolygu
- Ymchwil
- Arall

### Cofrestru

- Cyfarwyddwr clinigol neu reolwr gofal
- Comisiynu
- Addysg
- Polisi
- Sicrhau ansawdd neu arolygu
- Ymchwil
- Arall

Dyddiadau	Enw a chyfeiriad y sefydliad	Eich lleoliad gwaith (dewis o'r rhestr isod)	Eich cwmpas gwaith (dewis o'r rhestr isod)	Nifer yr oriau	Eich cofrestrïad (dewis o'r rhestr isod)	Disgrifiad byr o'ch gwaith



# TEMPLLED COFNOD ADBORTH

## Canllaw i gwblhau cofnod adborth

### Enghreifftiau o ffynonellau adborth

- PCleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth
- Cydweithwyr – nyrsys, bydwragedd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill
- Myfyrwyr
- Gwerthusiad blynyddol
- Adroddiadau ar berfformiad tîm
- Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol
- Serious event reviews

### Enghreifftiau o fathau o adborth

- Llafar
- Llythyr neu gerdyn
- Arolwg
- Adroddiad

Dylech ddarparu'r wybodaeth ganlynol ar gyfer y pum darn o adborth. Ni ddylech gofnodi unrhyw wybodaeth a allai alluogi adnabod unigolyn, p'un a yw'r unigolyn yn fyw neu wedi marw. Mae'r adran ar wybodaeth na ellir ei hadnabod yn Sut i ail-ddilysu gyda'r NMC yn cynnig arweiniad ar sut i sicrhau nad yw eich nodiadau'n cynnwys gwybodaeth allai ei gwneud yn bosibl i adnabod unigolyn.

Efallai yr hoffech feddwl am sut mae eich adborth yn berthnasol i'r Cod, a sut y gellir ei ddefnyddio yn eich adroddiadau myfyriol.

Dyddiad	Ffynhonnell yr adborth O ble cafwyd yr adborth?	Math o adborth Sut dderbyniwyd yr adborth?	Cynnwys yr adborth Beth yr adborth yn ymwneud ag o a sut mae wedi dylanwadu ar waith?



## ENDNOTES

- <sup>1</sup> SI 2002/253 fel y'i diwygiwyd.
- <sup>2</sup> SI 2004/1767 fel y'i diwygiwyd.
- <sup>3</sup> Mae'r safonau ar gyfer ail-ddilysu yn cael eu gwneud o dan Erthygl 19(1) Gorchymyn NMC 2001.
- <sup>4</sup> NMC 2011.
- <sup>5</sup> Y Cod: Safonau proffesiynol arfer ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd, NMC, 2015.
- <sup>6</sup> Erthygl 10(2)(c) y Gorchymyn, Rheol13(1)(b)(ii) y Rheolau.
- <sup>7</sup> Safonau a osodwyd dan Erthygl 19(3) y Gorchymyn.
- <sup>8</sup> Safonau a osodwyd dan Erthygl 19(3) y Gorchymyn.
- <sup>9</sup> Safonau a osodwyd dan Erthygl 19(3) y Gorchymyn.
- <sup>10</sup> Safonau a osodwyd dan Erthygl 19(3) y Gorchymyn.
- <sup>11</sup> Safonau a osodwyd dan Erthygl 19(1) y Gorchymyn a Rheol 13(1)(b)(i) y Rheolau.
- <sup>12</sup> Safonau a osodwyd dan Erthygl 19(3) y Gorchymyn.
- <sup>13</sup> Safonau a osodwyd dan Erthygl 19(3) y Gorchymyn.
- <sup>14</sup> Safonau a osodwyd dan Erthygl 19(3) y Gorchymyn.
- <sup>15</sup> Rheol 13(1)(b)(i).
- <sup>16</sup> Rheol 13(1)(a) y Rheolau.
- <sup>17</sup> Rheol 13(1)(a) a paragraff 2 atodlen 4 y Rheolau.
- <sup>18</sup> Rheol 13(1)(a) a Rheolau 6(6)(d) a 6(6)(e).
- <sup>19</sup> Rheol 6(6)(c).
- <sup>20</sup> Rheol 6(6)(d) a Rheol 6(6)(e).
- <sup>21</sup> Rheol 6(6)(c) y Rheolau.
- <sup>22</sup> Erthygl 10(2)(aa) o'r Gorchymyn a Rheolau 13(1)(aa) y Rheolau
- <sup>23</sup> Paragraff 1(h)(ii) atodlen 4 y Rheolau
- <sup>24</sup> Rheol 13(1)(d) y Rheolau.
- <sup>25</sup> Rheol 13(1)(d).
- <sup>26</sup> Rheol 14(5) Rheolau.
- <sup>27</sup> Ni allwn gynnig estyniad mwy na thri mis ar unrhyw gais. Rheol 14(5) o'r Rheolau.
- <sup>28</sup> Rheol 13(1)(d).
- <sup>29</sup> Erthygl 44 o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.
- <sup>30</sup> Erthygl 37(1)(a) o'r Gorchymyn.
- <sup>31</sup> Erthygl 37(1)(a) o'r Gorchymyn NMC 2001 a Rheolau 19, 20 a 21 o'r Rheolau Cofrestru.
- <sup>32</sup> Erthygl 37(2) o'r Gorchymyn.
- <sup>33</sup> Erthygl 44 o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001